

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 20 Ionawr 2025	0300 200 6565
Amser: 14.00	Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 47)

2 Deisebau newydd

- 2.1 P-06-1482 Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)

(Tudalennau 48 – 60)

- 2.2 P-06-1468 Gosod rheolau llymach i gyfyngu ar y rhoddion a'r taliadau a gaiff Aelodau o'r Senedd

(Tudalennau 61 – 68)

- 2.3 P-06-1469 Rhaid i bolisiâu neu brosiectau'r Llywodraeth sy'n costio dros £10 miliwn gael eu cymeradwyo gan etholwyr

(Tudalennau 69 – 75)

- 2.4 P-06-1470 Cael gwared ar y Cynllun Cymru Wrth-hiliol, sy'n gynllun HILIOIOL a hurt

(Tudalennau 76 – 81)

- 2.5 P-06-1477 Deddf newydd gan y Senedd i adalw cynghorwyr lleol

(Tudalennau 82 – 88)

- 2.6 P-06-1483 Rhoi llais i gymdogion pan fydd perchnogion llety gwyliau yn dechrau gwneud cais am drwyddedau

(Tudalennau 89 – 98)

- 2.7 P-06-1487 Darparu croesfan i gerddwyr ar yr A4042 yn Llanofer; ei gwneud yn ddiogel i ddefnyddwyr bysiau a gostwng y terfyn cyflymder.

(Tudalennau 99 – 104)



2.8 P-06-1493 Sicrhau diagnosis a thriniaeth i bobl sy'n dioddef o sgîl-ffeithiau negyddol brechlyn COVID-19

(Tudalennau 105 – 113)

2.9 P-06-1494 Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

(Tudalennau 114 – 128)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1184 Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru ... mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

(Tudalennau 129 – 131)

Gwasanaethau Iechyd Menywod (Caiff y tair deiseb ganlynol eu hystyried gyda'i gilydd)

3.2 P-06-1220 Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod

(Tudalennau 132 – 133)

3.3 P-06-1242 Gwellu Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru

(Tudalennau 134 – 139)

3.4 P-06-1444 Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd

(Tudalennau 140 – 148)

3.5 P-06-1258 Gwneud unigolion yng Nghymru sydd ag anableddau cudd yn gymwys ar gyfer y Bathodyn Glas

(Tudalennau 149 – 150)

3.6 P-06-1387 Darparu cymorth dyngarol i Gaza

(Tudalennau 151 – 153)

3.7 P-06-1425 Gofynnwn i Lywodraeth Cymru myndro ei phenderfyniad i atal bysiau T2 rhag galw yng Ngarndolbenmaen

(Tudalennau 154 – 157)

3.8 P-06-1439 Gwella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru.

(Tudalennau 158 – 160)

3.9 P-06-1454 Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl brys i dadau newydd

(Tudalennau 161 – 164)

3.10 P-06-1452 Dydd Llun heb gig ym mhob ysgol yng Nghymru.

(Tudalennau 165 – 167)

Caiff y ddwy ddeiseb a ganlyn eu trafod gyda'i gilydd

3.11 P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.

(Tudalen 168)

3.12 P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

(Tudalennau 169 – 181)

3.13 P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban.

(Tudalennau 182 – 184)

4 Papur i'w nodi

4.1 P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

(Tudalennau 185 – 187)

4.2 P-06-1414 Paratoi cais i Gymru gystadlu yng Nghystadleuaeth yr Eurovision

(Tudalen 188)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Preifat

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Ionawr 2025
Petitions Committee | 20 January 2025

Cyfeirnod: SR24/9617

Rhif y ddeiseb: P-06-1482

Teitl y ddeiseb: Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol)

Geiriad y ddeiseb: Wedi ein hysbrydoli gan y mudiadau Smartphone Free Childhood a Delay Smartphones, yn ogystal ag ymchwil neilltuol ddiweddar ar effeithiau negyddol dwys ffonau clyfar ar blant, rydym yn galw ar Senedd Cymru i'w gwahardd ym mhob ysgol yng Nghymru, gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Mae defnyddio ffonau clyfar yn achosi pryderon sylweddol o ran llesiant a diogelu. Rydym yn pryderu'n fawr am ddatblygiad cymdeithasol ac iechyd meddwl ein plant ac yn credu bod gan bob disgybl yr hawl i fod mewn ysgol heb ffonau clyfar.

Mae iechyd meddwl plant ar ei isaf erioed, gyda ffonau clyfar a chyfryngau cymdeithasol ymysg y prif ffactorau cyfrannol.

Mae ymchwil yn amlygu effeithiau andwyol ffonau clyfar ar blant, gydag adroddiad gan Bwyllgor Dethol Senedd y DU yn nodi bod y risgiau sy'n gysylltiedig ag amser o flaen sgrin yn drech na'r manteision. Yn ddiweddar, fe alwodd y BMJ am ymateb iechyd cyhoeddus rhagofalus. Mae ffonau clyfar yn amharu ar ddatblygiad yr ymennydd, yn gostwng hunan-barch, yn achosi gorbryder, ac yn dod â phlant i gysylltiad â chynnwys niweidiol. Mae adroddiadau'n cynnwys cyfeiriadau at bobl ifanc yn eu harddegau yn gweld pobl yn cael eu lladd go iawn ar gyfryngau cymdeithasol ac achosion o hunanladdiad oherwydd 'blacmel rhywiol.' Mae 83% o rieni yn credu bod



ffonau clyfar yn niweidiol, gyda 58% yn cefnogi gwaharddiad i blant dan 16 oed (arolwg Parentkind).

Mae gwledydd fel Ffrainc, y Ffindir, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Sweden, a Tsieina, ynghyd â llawer o ysgolion yn y DU ac UDA, wedi cyflwyno gwaharddiadau ar ffonau clyfar, gan arwain at well canolbwyntio a llesiant ymhlith myfyrwyr. Mae UNESCO a Llywodraeth y DU hefyd wedi galw am waharddiad ar ffonau clyfar mewn ysgolion.

1. Cefndir

Ar 6 Ionawr 2025, cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad gyda rhanddeiliaid i drafod materion yn ymwneud â gwahardd ffonau clyfar yng Nghymru. Mae'r papur briffio hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth gefndir.

1.1. Perchnogaeth ar ffonau clyfar gan blant a phobl ifanc

Cynhaliwyd Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr Ysgolion Cynradd 2022-23 gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Roedd yr arolwg yn cynnwys 354 o ysgolion cynradd a 32,606 o ddisgyblion yng Nghymru.

Roedd y canfyddiadau allweddol o'r arolwg yn cynnwys y canlynol:

- Adroddwyd bod gan **63% o ddysgwyr** ffôn clyfar.
- Roedd **83% o ddysgwyr Blwyddyn 6** yn berchen ar ffôn clyfar, mewn cymhariaeth â **43% o ddysgwyr Blwyddyn 3**
- Nid oedd gwahaniaeth mawr rhwng grwpiau cyfoeth teulu o ran perchnogaeth ar ffonau clyfar.

Yn 2023, adroddodd Ofcom fod gan 26% o bobl pump i saith oed, 61% o bobl wyth i 11 oed a 96% o bobl 12 i 15 oed eu ffôn symudol eu hunain.

1.2. Effaith ar gyrhaeddiad addysgol

Canfu adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sef Students, digital devices and success (2024), ar gyfartaledd, yr adroddodd dwy

ran o dair o bobl 15 oed ar draws gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fod eu sylw yn cael ei dynnu gan ddefnyddio dyfeisiau digidol, gan gynnwys ffonau, ym mhob dosbarth mathemateg neu'r rhan fwyaf ohonynt. Yn ogystal, roedd sylw tua 60% o ddisgyblion yn cael ei dynnu gan ddisgyblion eraill yn defnyddio dyfeisiau digidol.

Awgrymodd hefyd fod data o'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn dangos cysylltiad gweladwy rhwng defnyddio dyfeisiau digidol mewn ysgolion a deilliannau dysgu. Sgoriodd myfyrwyr a nododd fod eu sylw yn cael ei dynnu gan gyfoedion gan ddefnyddio dyfeisiau digidol mewn rhai dosbarthiadau mathemateg, y rhan fwyaf neu bob un ohonynt, yn sylweddol is mewn profion mathemateg, sy'n cyfateb i werth tri chwarter blwyddyn o addysg.

Fodd bynnag, canfu ymchwilwyr yng Ngholeg y Brenin, Llundain, pan reolwyd ar gyfer rhyw, dosbarth cymdeithasol ac ymddygiad ysgol, fod data PISA yn dangos bod myfyrwyr mewn ysgolion gyda gwaharddiadau ffôn mewn gwirionedd wedi cael cyflawniad is ar draws eu sgoriau prawf PISA na'r rhai mewn ysgolion a oedd yn caniatáu defnyddio ffôn.

1.3. Ymddygiad disgyblion

Dangosodd Behaviour in Scottish schools: research report 2023 gan Lywodraeth yr Alban, fod y defnydd camdriniol o ffonau symudol a thechnolegau digidol yn un o'r ymddygiadau aflonyddgar mwyaf cyffredin a welwyd neu a gafwyd gan staff ysgolion uwchradd. Roedd hyn yn cynnwys disgyblion yn defnyddio ffonau symudol i fwlio neu aflonyddu ar ddisgyblion eraill a staff a ffilmio digwyddiadau yna eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Amcangyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) Online bullying in England and Wales: year ending March 2020 fod un o bob pump o blant yng Nghymru a Lloegr wedi cael profiad o fwlio ar-lein. Roedd bron tri o bob pedwar plentyn (72%) a oedd wedi cael profiad o ymddygiad bwlio ar-lein wedi cael profiad o leiaf rywfaent ohono yn ystod amser ysgol.

1.4. Iechyd a llesiant meddyliol

Canfu adroddiad yn 2019 gan Brif Swyddogion Meddygol y DU, sef Screen-based activities and children and young people's mental health and psychosocial wellbeing: a systematic map of reviews, gysylltiad rhwng y ddau ond nid oedd yn gallu profi perthynas achosol.

Clywodd ymchwiliad Pwyllgor Addysg Senedd y DU, sef Screen time: impacts on education and wellbeing (Mai 2024) dystiolaeth yn awgrymu bod **amser sgrin yn cael effaith negyddol gyffredinol ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc**. Clywodd fod plant a phobl ifanc **mewn perygl o ddod ar draws niwed ar-lein wrth ddefnyddio sgriniau**. Roedd y rhain yn cynnwys seiberfwlio, hiliaeth, cam-drin gwreig-gasaol, pornograffi, a deunydd yn hyrwyddo trais a hunan-niwed. Yn ogystal, clywodd y gall delweddau sy'n cael eu postio ar-lein gael effaith negyddol ar ganfyddiad plant a phobl ifanc o'u hunain, gan gynyddu anfodlonrwydd corff ac anhwylderau bwyta.

1.5. Defnydd cadarnhaol o ffonau clyfar mewn ysgolion

Mae manteision posibl o ganiatáu ffonau symudol mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnydd ar gyfer dysgu digidol.
- Ymchwil mewn gwersi.
- Rhesymau meddygol. Mae angen i rai plant gael mynediad i'w ffôn symudol i gefnogi eu hiechyd, megis i gadw golwg ar eu hamserlen meddyginiaeth neu fonitro eu diabetes.
- Negeseuon mewnol ysgolion.
- Cadw cysylltiad rheolaidd ag aelodau teulu i'r rhai â chyfrifoldebau gofalu

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Wrth ateb cwestiwn llafar ar 12 Tachwedd 2024 dywedodd Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y canlynol:

Ar hyn o bryd, mae pob ysgol yn gallu gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion os ydyn nhw'n dymuno, ac yn wir, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn caniatáu defnyddio ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth. [...] [rydym] am gyhoeddi pecyn cymorth ymddygiad i fod o gymorth i ysgolion, ac fe fydd hwnnw'n cynnwys strategaethau rheoli ystafelloedd dosbarth ac ymchwil ar reoli ymddygiad, gan gynnwys y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion.

I mi, mae hi'n bwysig iawn [bod plant yn] gwybod sut i ofyn am gymorth hefyd pe bydden nhw'n pryderu am rywbeth a welon nhw. Rydym ni'n gwneud llawer o waith i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein.

Mae gennym ni safle penodol yn Hwb. Mae gennym ni grŵp cyfeirio ar gyfer pobl ifanc, yr ydym ni'n ei ddiweddarau ar hyn o bryd, ac fe geir llawer o wybodaeth ddefnyddiol i rieni hefyd ynglŷn â dulliau o gadw eu plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod diogelwch ar-lein yn benodol yn nodwedd allweddol gyda'r cod gorfodol Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb (2022) a bod addysgu pobl ifanc ar sut i ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel yn fater trawsgwricwlaidd.

3. Camau gan Senedd Cymru

Yn 2022, cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr. Fel rhan o'r ymchwiliad, trafododd y Pwyllgor a oedd pobl ifanc yn defnyddio ffonau symudol yn ystod oriau ysgol i aflonyddu eu cyfoedion yn rhywiol, ac a oedd gan ysgolion bolisiau cyson ar ddefnyddio ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth wahanol gan gynnwys 'nad oes lle i ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth' ac y gall ffonau symudol fod yn 'arf dysgu arbennig'. Clywodd fod athrawon eisoes yn defnyddio ffonau clyfar fel rhan o'u haddysgu, felly 'nid y ffôn yw'r broblem ond camddefnydd o'r ffôn'.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad, beth bynnag fo union safbwynt pob ysgol ar ddefnyddio ffonau symudol, y dylai fod ganddynt bolisiau clir, sy'n cael eu gorfodi'n dda, y mae dysgwyr, rhieni a staff yn eu deall yn dda. Argymhellodd fel a ganlyn:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at awdurdodau lleol a/neu ysgolion i sicrhau bod gan ysgolion bolisiau clir ar ddefnydd derbyniol gan ddysgwyr o ffonau symudol drwy gydol y diwrnod ysgol, bod y polisiau hynny'n cael eu cyfathrebu'n dda i ddysgwyr, staff a rhieni, a'u bod yn cael eu gorfodi'n gyson gan staff yr ysgol.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddatgan y canlynol:

Mae'r defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion wedi'i gynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth: canllawiau ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r canllawiau hyn yn dyddio'n ôl i 2012 ac mae pob maes technoleg wedi

esblygu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Bydd fy swyddogion yn ystyried newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i'r canllawiau hyn ochr yn ochr â pholisi presenoldeb Cymru gyfan a chanllawiau Gwahardd o'r ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor Deisebau, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud bod pecyn cymorth ymddygiad i'w gyhoeddi yn gynnar eleni (2025). Bydd y pecyn cymorth yn cyfeirio at ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion a chadw'n ddiogel ar-lein.

4. Gwledydd eraill y DU

4.1. Lloegr

Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd yr Adran Addysg yn Lloegr ganllawiau anstatudol, sef Mobile Phones in Schools. Mae'n datgan y canlynol:

schools should develop a mobile phone policy that prohibits the use of mobile phones and other smart technology with similar functionality to mobile phones (for example the ability to send and/or receive notifications or messages via mobile phone networks or the ability to record audio and/or video) throughout the school day, including during lessons, the time between lessons, breaktimes and lunchtime.

Mae hefyd yn datgan y canlynol:

schools should recognise that a need for mobile phone access for some pupils may depend on their individual circumstances, including at home. Schools should allow flexibility in their policy for these pupils and consider including arrangements in other relevant policies (such as a young carers policy).

Wrth ateb cwestiwn seneddol ysgrifenedig ym mis Hydref 2024, cadarnhaodd y DU y byddai parhau â'r dull a nodwyd yng nghanllawiau mis Chwefror 2024.

4.2. Yr Alban

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ganllawiau ar ffonau symudol yn ysgolion yr Alban ym mis Awst 2024. Daeth i'r casgliad nad oedd gwaharddiad cenedlaethol

yn 'briodol nac yn ymarferol' ond dywedodd y gallai ysgolion a chynghorau gyflwyno cyfyngiadau a chyfyngiadau pe dymument.

4.3. Gogledd Iwerddon

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Adran Addysg Gogledd Iwerddon ganllawiau i ysgolion ar ddefnydd personol disgyblion o ffonau symudol a dyfeisiau tebyg eraill yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn yn datgan y dylai arweinwyr ysgolion, ar y cyd â Byrddau Llywodraethwyr, ddatblygu a gweithredu dull o ran defnydd ffonau symudol personol a dyfeisiau tebyg eraill gan ddisgyblion sy'n gweddu orau i'w cyd-destun ysgol a chyfnod eu haddysg. Mae hefyd yn dweud bod yr Adran yn argymhell y dylai Byrddau Llywodraethwyr a phenaethiaid/arweinwyr gymryd camau i gyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol a dyfeisiau tebyg eraill at ddefnydd personol disgyblion drwy gydol y diwrnod ysgol, gan gynnwys yn ystod cyfnodau cinio a hamdden.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf Petition P-06-1482
Ein cyf LN/10323/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

20 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar a oedd yn cynnwys cyfeiriad at y ddeiseb P-06-1482 - Gwahardd ffonau clyfar ym mhob ysgol yng Nghymru (gydag esemptiadau ar gyfer amgylchiadau eithriadol).

Mae ein cenhedlaeth bresennol o ddysgwyr yn cael eu magu gyda'r rhyngwrdd a'r cyfryngau cymdeithasol ac mae ganddynt fynediad at ystod o dechnoleg a dyfeisiau digidol. Mae wedi dod yn rhan annatod o'u bywydau ac mae'n rhywbeth y maent hwy a lleoliadau addysgol yn delio ag ef wrth i dechnoleg esblygu.

Pan gaiff ei reoli'n gywir, gall mynediad i'r byd ar-lein fod yn addysgiadol, ac yn ffordd wych i blant a phobl ifanc gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'r teulu. Mae athrawon yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o integreiddio technoleg ddigidol i addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd, a phan gaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun cadarnhaol, gall hyn fod yn adnodd dysgu gwerthfawr.

Yn aml, yr her fwyaf i ysgolion yw'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol mewn perthynas â ffonau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol, ac nid yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol neu yn ystod oriau'r ysgol. Gall cael mynediad ar unwaith ac yn gyflym i'r cyfryngau cymdeithasol, i apiau negeseua, ac i'r rhyngwrdd arwain heb os at broblemau sy'n cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl a lles.

Er bod polisïau ar ddefnyddio ffonau symudol o fewn y diwrnod ysgol yn fater i ysgolion a chyrff llywodraethu fynd i'r afael â nhw, rwy'n ymwybodol o'r effaith y mae defnydd ffonau symudol yn yr ysgol yn ei chael ar bresenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Wrth osod eu polisïau ynghylch ffonau symudol, rydym yn annog ysgolion i ystyried yr effaith y gallai ffonau symudol ei chael ar ddysgu a lles dysgwyr. Pan fo penaethiaid yn ystyried bod defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr, mae ganddynt yr awdurdod eisoes i wahardd neu gyfyngu ar eu defnydd gan gynnwys dyfeisiau electronig eraill fel tabledi os ydynt yn dewis gwneud hynny. Ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad hwnnw, gan ystyried y ffordd y maent yn defnyddio technoleg o fewn lleoliad yr ysgol ac anghenion eu dysgwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Tudalen y pecyn 55
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r angen i ddysgwyr ddeall sut i ddefnyddio dyfeisiau digidol yn ddiogel ac yn gyfrifol. Mae diogelwch ar-lein yn benodol yn nodwedd allweddol yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol, ac mae addysgu pobl ifanc ar sut i ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel yn fater trawsgwricwlaidd. Rydym yn parhau i ddarparu [arweiniad](#) i ysgolion, dysgwyr a rhieni i godi eu hymwybyddiaeth am sut i ymdrin â dyfeisiau digidol a'u cadw eu hunain yn ddiogel.

Mae ein pecyn cymorth ymddygiad, a gyhoeddir yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn darparu tystiolaeth ac arfer da i ysgolion eu hymgorffori yn eu polisiau ymddygiad. Bydd y pecyn cymorth hwn yn cyfeirio at ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion a chadw'n ddiogel ar-lein.

Rwyf hefyd wedi bod yn trafod effaith y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion ar ymddygiad dysgwyr yn y gynhadledd i benaethiaid ac yn uniongyrchol gyda chynrychiolwyr undebau llafur yn gynharach y mis hwn.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dear Petitions Committee,

13th January 2025

Re: Petition to ban smartphones in all schools in Wales (with exemptions for exceptional circumstances)

Thank you for forwarding correspondence dated 20.11.24 regarding the above petition from Lynne Neagle to Carolyn Thomas. Please note that Ms Neagle's letter refers to 'mobile phone' use, whereas the petition was created to ban **Smartphones** (hereon referred to as SPs) and not **mobile phones**. Social Media will be referred to as SM.

Concerns with Welsh Government's Response

Whilst Ms Neagle's letter recognises the impact SPs are having on young peoples' mental health and wellbeing, it is lacking in scope and fails to adequately address critical safeguarding concerns outlined in the petition text. These need to be addressed **as a matter of urgency** to protect our young people: the future generations of Wales. The stance of Welsh Government's Education Department is not sufficiently responsive to the evidence and global trends.

Social Media

Ms Neagle's acceptance of SM as being an integral part of life for young people is deeply concerning. Worldwide, many medical professionals and experts are unanimous in their belief that SPs should be banned altogether for under 16s. SM and SPs are a very dangerous combination and it is overwhelmingly clear that they are doing real harm to young people. Schools and governments need to unite in dissuading children from using SM, not encourage it by allowing SPs on their premises.

Challenges From Activities Outside School and How Banning SPs Can Help

While it's true that many challenges related to SPs and SM stem from activities outside school hours, banning SPs in schools addresses a critical aspect of the issue. Schools serve as sanctuaries where healthy habits can be modelled and reinforced, providing a critical break from the relentless pressures of SP and SM use. By prohibiting SPs during school hours, students gain respite from distractions, supporting their mental health and fostering face-to-face communication, academic focus, and mindfulness. For children who spend excessive time on devices—sometimes up to 15 hours daily—this screen-free time is invaluable for social engagement and brain development, equipping them with the resilience and skills to navigate both the real and digital worlds more responsibly.

Objective

We strongly urge the Committee to recommend a nationwide policy that ensures a SP-free educational environment for **all** children in Wales. With campaigns like Smartphone Free Childhood gathering momentum and Global leaders taking bold action, we do not want to see Wales fall behind on such an important issue for our children.

NAHT

The NAHT dismisses this debate as an "unnecessary distraction" from more pressing issues facing schools. However, it's worth considering whether excessive SP use might contribute to some of these challenges. Research has shown that SPs can exacerbate existing learning difficulties, such as reduced attention spans and increased anxiety, which disproportionately affect pupils with additional learning needs. Furthermore, the pervasive influence of SPs impacts

nearly all children, potentially creating new challenges such as screen addiction and impaired social skills. Staff retention issues could be linked to behavioural and other issues caused by SP use. For example, Llanishen High School, which banned SPs six years ago, has a low staff turnover.

Harms of SP Use

Social Media Risks:

Grooming: Platforms like TikTok and Snapchat are exploited by predators. Sextortion crimes have risen by 66% since 2022 and many children have taken their own lives worldwide due to Sextortion.

Pornography: NSPCC reports nearly all children encounter violent pornography by age 12, with 79% viewing it by 18.

Other concerns include but are not limited to: misogyny, toxic beauty standards, extremism, racism, self-harm and pro-anorexia content, violence, body shaming, drug promotion, life-threatening challenges, homophobia and transphobia, gambling, scams and phishing. 75% of 15-year-olds have been sent beheading videos and 90% of girls and 50% of boys say they are sent unwanted explicit content.

Mental and Physical Health Risks:

Addiction: The average American spends 2.5 months per year on their SP. Teens receive 237 notifications daily, disrupting focus.

Physical Impact: Blue light disrupts melatonin production, and therefore sleep, and could even contribute to early-onset puberty. SP use has also been linked to obesity, digital eye strain and an increase in myopia, tics/tourettes, neck and back pain, poor posture and hearing problems.

Negative impact of SPs on the Brain and Learning

There is a growing body of research that suggests SP use can have a negative impact on the structure and function of our brains. Some of the potential negative effects include: reduced memory and learning; reduced attention span and focus; reduced happiness in relationships; increased anxiety and depression and reduced empathy.

Academic Performance

SP distractions reduce cognitive capacity and academic achievements. A study published in the *University of Chicago Press Journals* found that the mere presence of a SP reduces available cognitive capacity.

Benefits of SP Bans in Schools

A 2015 *London School of Economics* study found that test scores increased by more than 6% in schools that banned SPs. The study also found that low-achieving and low-income students improved the most.

Children at schools with effective SP bans get GCSEs 1-2 grades higher.

Global Context and Evidence

More than a year ago, UNESCO called for a global ban on SPs in schools, yet the Welsh Government is effectively condoning and endorsing the use of products that were not designed

for children; are not suitable for children; and are wreaking havoc with childrens' and parents' lives.

Calls for Action and Expert Support

- Bereaved parents, such as those of Molly Russell, Brianna Ghey, and Jools Sweeney, advocate for urgent changes in policy.
- Experts including Dr. Rangan Chaterjee and Jonathan Haight, and public figures such as **Bill Gates** and **Martin Lewis** support limiting access to SPs and SM for under-16s.
- The Irish Medical Association has called for a SP ban for under-16s, deeming their use by children a public health emergency.
- The United States Surgeon General has called for tobacco-style warning labels on SM and Australia has recently banned SM for children under 16.

Injustice and Risks of Allowing Individual Schools to Implement SP Bans

It is unjust that some schools have SP bans while others do not. All children deserve the right to a SP-free educational setting. Most parents support banning SPs in schools.

While Welsh Government is leaving this critical decision to the discretion of individual schools, this approach fails to acknowledge that all children—and indeed, all people—are fundamentally vulnerable to the addictive design of SPs and the harmful content they can expose them to. These risks are universal and not dependent on a school's unique community or circumstances.

We do not believe schools are best placed to make such decisions. While they may know their pupils and communities well, they cannot fully grasp or mitigate the wide-ranging and deeply rooted risks associated with SP use. **The issues of addiction, exposure to harmful content, and mental health consequences affect all children equally and require a unified, nationwide approach, not a fragmented policy that leaves some children unprotected.**

Contradictions in the Digital Safety Argument

Children do not need SPs in school to learn about digital safety. Allowing unregulated devices in schools:

- Risks inappropriate content sharing.
- Exposes children to algorithms serving unsolicited harmful content (e.g., Channel 4 documentary *Swiped* shows how some children can be served violent pornography within minutes of opening a SM account).

The Role of Schools and Government

We believe schools have a crucial role in helping parents manage this issue. A policy change could set a positive example and help shift the norm.

Opportunity Cost:

The average UK 12-year-old spends approximately 29 hours a week – the equivalent of a part-time job – on their SP. This extensive screen time leaves little opportunity for real-world activities and relationships that are essential for developing life skills necessary for the transition into adulthood. Introducing a blanket ban on SP use could result in young people spending approximately 1,170 fewer hours on their devices annually.

Evidence indicates a significant decline in face-to-face social interactions among adolescents, with a 2022 study revealing a 30% drop in in-person interactions compared to a decade ago. This underscores the importance of fostering opportunities for meaningful social connections within schools. Limiting SP use in educational settings can help encourage real-world interactions, supporting the development of essential life skills and deeper relationships

Parent and Teen Support:

Schools and governments should be actively discouraging SP and SM use in children. Parents overwhelmingly want SPs banned in schools and many teenagers are now recognising the impact SPs are having on them. A quarter of teenagers surveyed would consider swapping their SP for a basic phone, according to a survey for *BBC Bitesize* and *BBC Radio 5 Live*.

Dangers of Big Tech and Addiction

The pervasive influence of Big Tech on our culture, driven by profit, raises major concerns. Many tech executives strictly limit their own children's screen time, often opting for tech-free schools, highlighting a stark hypocrisy.

Big Tech borrows strategies from Big Tobacco, exploiting human psychological weaknesses to foster addiction. SM platforms, for example, are designed to trigger dopamine responses, keeping users hooked. Some experts call for regulating Big Tech as strictly as Big Tobacco to protect public health. Restricting SP use in schools could help mitigate these negative impacts on children's development and mental well-being.

Social Exclusion and Inequality

Allowing SPs in schools deepens social exclusion for children without access due to financial, cultural, or health reasons. While most children own SPs, those without them face barriers in lessons and peer interactions. This "digital divide" reinforces inequalities, leading to exclusion and long-term issues like low self-esteem and academic disengagement. Schools must adopt inclusive policies that do not rely on SPs use to prevent further marginalisation.

Conclusion

It is essential that all children have access to a SP-free educational environment, where they are free from the pressures and distractions that come with digital devices. The current situation, where decisions about SP use are left to individual schools, fails to address the widespread concerns and evidence regarding their detrimental effects. The rise in bullying and antisocial behavior, often fuelled by unrestricted internet access, cannot be ignored. Without a national policy in place, children continue to be exposed to these risks, and the social pressures to own SPs only grow. Parents are left in the difficult position of providing their children with devices they know may expose them to harm, all to avoid the stigma of being a "have-not." We urge Welsh Government to take decisive action by implementing a national ban on SPs in schools. This would not only create a safer and healthier environment for students but also foster a more equitable and supportive atmosphere where all children can thrive without the pressures of SM and digital distractions.

Thank you

P-06-1468 Gosod rheolau llymach i gyfyngu ar y rhoddion a'r taliadau a gaiff Aelodau o'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Ionawr 2025
Petitions Committee | 20 January 2025

Cyfeirnod: SR24/9547-12

Rhif y Ddeiseb: P-06-1468

Teitl y ddeiseb: Gosod rheolau llymach i gyfyngu ar y rhoddion a'r taliadau a gaiff Aelodau o'r Senedd

Geiriad y ddeiseb: Mae'r rhoddion sylweddol a gafodd Aelod blaenllaw o'r Senedd yn ddiweddar wedi bod yn destun cryn bryder ymhlith y cyhoedd. Rhaid dysgu gwersi yn sgil hyn.

Rhaid i Gymru gynnal a gwella ei henw da am dryloywder ac uniondeb. Mae dyletswydd ar bob Aelod o'r Senedd i sicrhau na fydd unrhyw wrthdaro, neu unrhyw ganfyddiad o wrthdaro, rhwng ei ddyletswyddau cyhoeddus a'i fuddiannau preifat.

Rhaid sicrhau na all neb dalu, neu ymddangos fel petai'n talu, am ddylanwad gwleidyddol. Dylid asesu'n ofalus o ble y daw'r holl fuddiannau y mae Aelodau'n eu cael.



1. Y cefndir

1.1. Cofrestru a datgan buddiannau

Mae adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar uniondeb yn nodi y mae'n rhaid i Reolau Sefydlog y Senedd, sef y rheolau sy'n nodi sut mae'r Senedd yn gweithredu, ddarparu ar gyfer cofrestr o fuddiannau'r Aelodau a rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio.

Mae Rheol Sefydlog 2 y Senedd yn ymwneud â buddiannau ariannol a buddiannau eraill yr Aelodau

Mae Rheol Sefydlog 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gadw a chyhoeddi Cofrestr Buddiannau. Rhaid i Aelodau gwblhau'r gofrestr cyn pen wyth wythnos i dyngu'r llw yn gyntaf a diweddarau'r gofrestr o fewn pedair wythnos i unrhyw newidiadau ddigwydd.

Mae manylion y buddiannau y mae'n rhaid eu cofrestru wedi'u nodi mewn Atodiad. Maent yn cynnwys swyddi cyfarwyddwyr am dâl neu gyflogaeth a rhoddion, lletygarwch neu fuddion materol sy'n uwch na'r gwerth a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gofrestru 'nawdd ariannol'. Mae'r nawdd ariannol y mae'n ofynnol ei gofrestru yn cynnwys unrhyw nawdd gan gwmnïau, undebau llafur, cyrff proffesiynol, neu gymdeithasau masnach i dreuliau etholiad Aelodau o'r Senedd sy'n fwy na 25 y cant o gyfanswm eu treuliau etholiad a ddatganwyd. Nid yw hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer etholiadau mewnol pleidiau na rhoddion a wneir yn gyffredinol i blaid wleidyddol leol, sy'n dod o dan ofynion eraill.

Ar 10 Mai 2006, penderfynodd y Senedd bod yn rhaid i unrhyw roddion, lletygarwch neu fuddion dros £350 gael eu cofrestru. Nid yw Rheolau Sefydlog y Senedd yn rhoi terfyn uchaf ar y symiau y gall Aelodau eu derbyn. Ar 19 Mai 1999, penderfynodd y Senedd fod "rhoddion i gael eu hystyried yn nawdd ariannol os oes perthynas uniongyrchol rhwng rhoddion o'r fath mewn unrhyw flwyddyn ag ymgeisyddiaeth y person i gael ei ethol i, neu aelodaeth y person o, y Senedd a'u bod yn werth o leiaf £500".

Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i Aelod wneud datganiad ar lafar o unrhyw fuddiant ariannol y gallai ef, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol ei gael a allai effeithio ar fater sy'n cael ei drafod yn ystod y trafodion hynny. Mae hyn yn cynnwys lle gallai unrhyw benderfyniadau a wneir yn

ystod trafodion arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu i blentyn dibynnol yr Aelod. Gwaherddir pleidleisio hefyd gan Aelod o'r Senedd sydd wedi datgan buddiant ariannol yn y trafodion.

Mae Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn drosedd i Aelodau gymryd rhan mewn trafodion heb fod wedi cydymffurfio â'r rheolau ar gofrestru neu ddatgan buddiannau a nodir yn y Rheolau Sefydlog, neu fynd yn groes i'r rheolau hynny.

1.2. Cod ymddygiad

Mae'n ofynnol i bob Aelod o'r Senedd gadw at God Ymddygiad. Mae'r Cod yn nodi rheolau penodol y mae'n rhaid i Aelodau o'r Senedd gadw atynt. Yn ogystal â rheolau cyffredinol ar beidio â gweithredu mewn ffordd a allai ddwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol, mae'r Cod yn cynnwys rheolau penodol ar gymhelliant ariannol a rhoi mantais:

- **Rheol 10:** Ni chaiff Aelodau dderbyn unrhyw gymhelliant ariannol, rhodd, lletygarwch neu fudd arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Senedd, am ddylanwadu ar drafodion yn y Senedd, neu a allai fel arall ymddangos i berson rhesymol a diduedd i ddylanwadu, neu o bosibl ddylanwadu ar eu gweithredoedd fel Aelod, ac eithrio i'r graddau y mae eu derbyn yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth a wneir mewn Rheolau Sefydlog.
- **Rheol 11:** Ni chaiff Aelodau ddefnyddio na cheisio defnyddio eu statws fel Aelod i roi mantais neu driniaeth ffafriol i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i osgoi anfantais neu greu anfantais i rywun arall.

Comisiynydd Safonau'r Senedd sy'n gyfrifol am ymchwilio i unrhyw achosion honedig o dorri'r cod. Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd yn ystyried yr holl adroddiadau a chanfyddiadau a wneir gan y Comisiynydd ac yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw gamau y dylid eu cymryd mewn ymateb i ganfyddiadau'r Comisiynydd. Gall y rhain gynnwys argymhell bod y Senedd yn penderfynu gwahardd Aelod am gyfnod penodedig, tynnu hawliau a breintiau yn ôl neu geryddu Aelod.

1.2.a. Canllawiau ar gofrestru a datgan buddiannau

Mae'r Senedd hefyd yn cyhoeddi Canllawiau i Aelodau ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill. Mae Pennod 5 o'r Canllawiau yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn y dylid ei gofrestru.

1.2.b. Canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelod o'r Senedd

Mae Canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelodau o'r Senedd hefyd yn cael eu cyhoeddi. Maent yn nodi na ddylai Aelodau dderbyn unrhyw waith am dâl a fyddai'n golygu eu bod yn lobïo ar ran unrhyw berson neu sefydliad neu ar ran cleientiaid na derbyn unrhyw waith am dâl i ddarparu gwasanaethau fel strategydd, cynghorydd neu gleient seneddol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai Aelodau wrthod pob lletygarwch, budd neu rodd, ar wahân i'r rhai mwyaf di-nod neu achlysurol, os yw'r Aelod yn ymwybodol mai lobïwr proffesiynol sy'n eu cynnig.

1.3. Gofynion y tu allan i'r Rheolau Sefydlog

Mae Aelodau o'r Senedd hefyd o dan ddyletswyddau mewn perthynas â threuliau etholiad y Senedd i gofrestru rhoddion gyda'r Comisiwn Etholiadol. O dan system bresennol etholiadau'r Senedd, mae'n ofynnol i ymgeiswyr etholaethol adrodd am roddion tuag at wariant eu hymgyrch etholiadol i'r Comisiwn Etholiadol o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. O dan Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol gofrestru rhoddion gyda'r Comisiwn Etholiadol. Rhaid i roddion i ymgeiswyr rhestr ranbarthol gael eu hadrodd i'r Comisiwn Etholiadol fel rhoddion plaid wleidyddol yn hytrach na rhoddion ymgeiswyr unigol o dan PPERA 2000.

Bydd y system ar gyfer ethol Aelodau i'r Senedd yn newid o 2026 o dan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Bydd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni'r newidiadau etholiadol hyn cyn etholiad 2026.

1.3.c. Cymhwysedd y Senedd

Mae ariannu pleidiau gwleidyddol a'u haelodau a'u swyddogion yn fater a gedwir yn ôl. Mae eithriad i'r mater hwn a gedwir yn ôl ar gyfer taliadau i blaid wleidyddol at ddibenion cynorthwyo Aelodau o'r Senedd i gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd. Felly, mae rheoleiddio ariannu pleidiau gwleidyddol ar gyfer gweithgareddau plaid yr Aelodau yn fater a gedwir yn ôl yn bennaf.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae rheolau sy'n ymwneud â chofrestru rhoddion, lletygarwch a thaliadau i Aelodau o'r Senedd yn cael eu pennu a'u llywodraethu gan y Senedd. Fodd bynnag, mae disgwyl hefyd i Weinidogion Cymru, yn eu rôl fel aelodau o Lywodraeth Cymru, gadw at god moeseg ar ymddygiad gweinidogol. Mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch, mae paragraff 1.3 vii yn nodi:

Rhaid i Weinidogion beidio â derbyn unrhyw rodd neu letygarwch a allai godi amheuan am ddoethineb eu barn neu a allai eu rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol neu a allai, yn rhesymol, roi'r argraff honno.

Mae paragraff 5.7 o'r cod ar fuddiannau ariannol hefyd yn nodi:

Rhaid i'r Gweinidogion ofalu eu bod yn osgoi unrhyw berygl o wrthdaro buddiannau, neu osgoi rhoi'r argraff bod unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng eu swydd fel Gweinidog a'u buddiannau ariannol preifat.

Mae'r cod yn nodi mai'r Prif Weinidog fydd yn penderfynu sut yr ymchwilir i gwynion o dan y Cod ond y bydd fel arfer yn cyfeirio cwynion sylweddol am ymddygiad Gweinidogion at gynghorydd annibynnol i'w hystyried a rhoi cyngor arnynt.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i gofrestru a datgan buddiannau. Cynhaliodd ymgyngoriad cyhoeddus i gasglu tystiolaeth ysgrifenedig rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2023. Fel rhan o'i ymgynghoriad, gofynnodd y Pwyllgor am safbwyntiau ynghylch pa fuddiannau y dylid eu cofrestru, a yw'r gofrestr a'r rheolau ynghylch cofrestru yn ddigon clir, a yw'r gofrestr yn ddigon tryloyw ac o dan ba amgylchiadau y dylai fod yn ofynnol i Aelodau o'r Senedd ddatgan buddiant. Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mai 2024, dywedodd Vikky Howells AS, Cadeirydd y Pwyllgor ar y pryd, y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno cynigion i ddiwygio gofynion cofrestru yn y Seithfed Senedd yng ngoleuni materion a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Ym mis Mai 2024, ysgrifennodd Vaughan Gething AS, y Prif Weinidog ar y pryd, at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn nodi ei farn y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Pwyllgor wneud gwaith i adolygu'r Rheolau Sefydlog a rheolau'r Cod Ymddygiad

ar roddion a wneir i Aelodau o'r Senedd ac yn benodol, lefel yr adrodd a datgelu ac a ddylid gosod cap ar roddion gan unrhyw un endid neu unigolyn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diwedddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Carolyn Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Drwy e-bost


19 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Medi, a drafodwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn ei gyfarfod ar 7 Hydref. Carwn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater a godir yn y ddeiseb "P-06-1468 Gosod rheolau llymach i gyfyngu ar y rhoddion a'r taliadau a gaiff Aelodau o'r Senedd" fel rhan o'i flaenraglen waith.

Mae'n debyg y bydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod tymor yr haf, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am hynt ein gwaith.

Yn gywir,



Hannah Blythyn AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

P-06-1468 Set stricter rules to limit gifts, donations and payments received by Members of Senedd - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 13 January 2025

Thank you for this reminder. As stated in my immediate response, I had missed your email of 6 January, and I am grateful for the extension until tomorrow.

That earlier email invited me to comment on an attached document to be considered along with my petition by the Petitions Committee at its meeting on 20 January. That attached letter of 19 December from Hannah Blythyn MS states that the Standards of Conduct Committee will consider the issues raised by my petition.

As the Standards of Conduct Committee is responsible for reviewing the code of conduct for Members of the Senedd, guidance on the code and complaints procedures, and rules for lobbying, then it would be appropriate for that Committee to consider the issues raised by my petition, and I welcome its intention to do so. Refining the rules for conduct and lobbying is not straightforward, and the details require careful attention.

Stricter rules to limit gifts, donations and payments are required not only to protect the integrity and reputation of the Senedd and its Members. They are also needed to curtail undue influence by those whose wealth can subvert democratic processes. The malign interference of the world's richest man in the political life of the UK and other European countries illustrates the dangers.

I trust both the Petitions Committee and the Standards of Conduct Committee will take account of this wider threat that my petition only partially addresses. Once political debate is determined by the power of money, then democracy will die.

When an election is perceived to have been decided not by the quality of the candidates but by campaign expenditure, its outcome lacks legitimacy, as we have seen. Senedd must tighten its rules in advance of its 2026 election.

Thank you.

Lyn Eynon

Rhaid i bolisïau neu brosiectau'r Llywodraeth sy'n costio dros £10 miliwn gael eu cymeradwyo gan etholwyr

Y Pwyllgor Deisebau | Ionawr 2025

Cyfeirnod: SR24/9547/13

Rhif y Ddeiseb: P-06-1469

Teitl y ddeiseb: Rhaid i bolisïau neu brosiectau'r Llywodraeth sy'n costio dros £10 miliwn gael eu cymeradwyo gan etholwyr

Geiriad y ddeiseb: Ar gyfer pob un o bolisïau neu brosiectau'r Llywodraeth sy'n costio dros £10 miliwn, dylid cynnal refferendwm lle caiff etholwyr gymeradwyo neu wrthod y cynnig. Rhaid rhoi'r gorau i gamddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfer syniadau hunanfaldodus a hurt y Llywodraeth!

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwastraffu miliynau o bunnoedd o arian trethdalwyr, er enghraifft ar brosiect trychinebus ffordd osgoi'r M4 o gwmpas Casnewydd. Gwastraffwyd £35 miliwn ar gyflwyno terfyn cyflymder 20 mya, sef y polisi diweddaraf i gael ei wrthod gan etholwyr ond fe'i cyflwynwyd beth bynnag.



1. Y cefndir

1.1. Costau polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am gostau mewn sawl ffordd.

Mae'n nodi cynlluniau gwariant ar gyfer meysydd polisi yn ei chyllidebau blyneddol (mae rhagor o wybodaeth i'w gweld isod).

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth newydd, mae'n aml yn cynnwys amcangyfrifon o gostau mewn memoranda esboniadol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau, sy'n aml yn ymwneud â dyrannu cyllid. Mae enghreifftiau diweddar o gyllid o fwy na £10 miliwn yn cael ei ddyrannu yn cynnwys:

- Mehefin 2024 – Hyd at £52.66 miliwn o arian grant cyfalaf i helpu i sicrhau bod holl adeiladau'r sector cymdeithasol mor ddiogel rhag tân â phosibl;
- Mehefin 2024 – £20 miliwn o gyllid cyfalaf yn 2024 i 2025 i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Mawrth 2024 – £11.25 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer Rhaglen Gyllido Cymru, sy'n cefnogi sefydliadau sector cyhoeddus Cymru i gyflawni eu nodau sero net;
- Mawrth 2024 – £70 miliwn ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2024 i 2025; a
- Mawrth 2024 – £39 miliwn drwy'r Grant Rhwydwaith Bysiau ar gyfer 2024 i 2025 i awdurdodau lleol ariannu a sicrhau gwasanaethau bysiau.

1.2. Refferenda

Mae Adran 64 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru gynnal pôl:

...mewn ardal sy'n cynnwys Cymru neu unrhyw ran (neu rannau) o Gymru at ddiben canfod barn y rhai a holwyd ynghylch a ddylid neu sut y dylid arfer unrhyw rai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru (ac eithrio'r rhai o dan adran 62).

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Bob blwyddyn, rhaid i Lywodraeth Cymru osod cyllideb ddrafft gerbron y Senedd. Rhaid bod y gyllideb ddrafft yn amlinellu:

...“cynlluniau cyllido a'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall sy'n briodol ym marn y Gweinidog.

Yn dilyn gwaith craffu gan y Senedd (gweler isod), rhaid i Lywodraeth Cymru osod Cynnig Cyllideb Blynnyddol, a fydd yn darparu manylion y gyllideb derfynol. Rhaid i'r cynnig hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd.

Gall Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i'w chyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ei chyllidebau atodol a byddai angen i'r rhain hefyd gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

Mae cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn amlinellu sut y bydd yn defnyddio tua £27 biliwn i ariannu gwasanaethau yng Nghymru. Ceir dadansoddiadau o arian fesul maes polisi yma.

2.1. Ymateb i'r ddeiseb

Yn ei hymateb i'r ddeiseb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

Mae gan blaid sy'n ennill mwyafrif o'r seddi, neu bleidiau sy'n gallu ffurfio mwyafrif neu ennyn hyder y ddeddfwrfa, yr hawl i ffurfio llywodraeth ac i geisio gweithredu'r polisiâu y cawsant fandad ar eu cyfer yn yr etholiad.

Mae'r llywodraeth yn atebol i'r ddeddfwrfa am weithredu ei pholisiâu, a chyfrifoldeb y Senedd yw craffu ar y modd y cânt eu gweithredu, gan gynnwys pa mor gost effeithiol ydynt a'u gwerth am arian, yn ogystal â chasglu tystiolaeth gan arbenigwyr, ac argymhell addasiadau. Mae'r ddeddfwrfa, yn ei thro, yn atebol i'r etholwyr am ei gweithredoedd...

Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar bolisiâu.

O ran defnyddio refferenda, dywedodd:

Er y gall refferenda alluogi ymgysylltu â'r cyhoedd a gwella'r broses ddemocrataidd mewn rhai amgylchiadau, mae ganddynt anfanteision

sylweddol hefyd sy'n golygu bod rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Rydym yn nodi dadansoddiad a chasgliadau adroddiad Pwyllgor y Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, Referendums in the United Kingdom. Rydym yn nodi'n arbennig y dadleuon nad yw refferenda yn briodol ar gyfer datrys materion cymhleth ac y byddent yn gostus i'w gweinyddu... nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros wyro oddi wrth arferion cyfansoddiadol sefydledig ein democratiaeth gynrychioliadol.

Daeth i'r casgliad a ganlyn:

Amlygodd adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yr heriau cynyddol i ddemocratiaeth Cymru, gan gynnwys lefelau isel o wybodaeth ymysg y cyhoedd am sefydliadau democrataidd Cymru ac ymgysylltu â hwy. Cynigiodd gyfres o ddiwygiadau i gryfhau democratiaeth yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu panel arbenigol i helpu i feithrin gallu ar gyfer arloesi democrataidd ac ymgysylltu cymunedol cynhwysol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr agenda hon ar hyn o bryd.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 19, rhaid i bwyllgor cyfrifol (y Pwyllgor Cyllid ar hyn o bryd):

... ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw adroddiad neu ddogfen arall a osodwyd gerbron y Senedd gan Weinidogion Cymru neu gan y Comisiwn ac sy'n cynnwys cynigion ar gyfer trefniadau cyllido, neu defnyddio adnoddau.

Mae'r rheolau sy'n llywodraethu sut y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â'i waith craffu wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 20.

Hefyd, cytunodd y Senedd a Llywodraeth Cymru ar brotocol ar gyfer y gyllideb o ran yr egwyddorion sy'n sail i broses y gyllideb. Mae'r protocol hwn yn nodi y bydd y Pwyllgor Cyllid:

... yn cynnal ei sesiwn strategaeth cyn y gyllideb ei hun cyn yr hydref. Disgwylir y bydd hyn yn trafod ymgysylltu â'r cyhoedd a gwaith craffu strategol tymor hwy.

Rhaid i bolisiâu neu brosiectau'r Llywodraeth sy'n costio dros £10 miliwn gael eu cymeradwyo gan etholwyr

O dan Reol Sefydlog 18.2, rhaid i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd:

... ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau y tu hwnt i'r hyn a awdurdodwyd neu y bernir ei fod wedi'i awdurdodi ac a gofnodwyd yng nghyfrifon archwiliedig Gweinidogion Cymru, y Comisiwn, neu'r Ombwdsmon,... gan argymhell a ddylai'r Senedd awdurdodi'r gormodeddau yn ôl-weithredol drwy gyfrwng penderfyniad cyllideb atodol.

Mae gan Archwilio Cymru ~~hefyd rôl~~ wrth graffu ar sut y caiff arian cyhoeddus ei wario. Ystyrir rhai o adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1469
Ein cyf/Our ref HIDCC/10411/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

22 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Deiseb P-06-1469 Rhaid i bolisïau neu brosiectau'r Llywodraeth sy'n costio dros £10 miliwn gael eu cymeradwyo gan yr etholwyr

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Medi ynglŷn â'r ddeiseb uchod.

Mewn democratiaeth gynrychioliadol fel ein un ni, mae'n egwyddor gyfansoddiadol sefydledig sy'n cael ei derbyn bod pleidiau gwleidyddol yn ceisio cael eu hethol a chael mandad ar gyfer eu polisïau drwy gyhoeddi maniffestos etholiadol cyn yr etholiad. Mae gan blaid sy'n ennill mwyafrif o'r seddi, neu bleidiau sy'n gallu ffurfio mwyafrif neu ennyn hyder y ddeddfwrfa, yr hawl i ffurfio llywodraeth ac i geisio gweithredu'r polisïau y cawsant fandad ar eu cyfer yn yr etholiad.

Mae'r llywodraeth yn atebol i'r ddeddfwrfa am weithredu ei pholisïau, a chyfrifoldeb y Senedd yw craffu ar y modd y cânt eu gweithredu, gan gynnwys pa mor gost effeithiol ydynt a'u gwerth am arian, yn ogystal â chasglu tystiolaeth gan arbenigwyr, ac argymhell addasiadau. Mae'r ddeddfwrfa, yn ei thro, yn atebol i'r etholwyr am ei gweithredoedd.

Er bod y ddeiseb yn ymwneud â rhinweddau cynnal refferenda ar bolisïau'r llywodraeth, yn hytrach na'r enghreifftiau penodol y mae'n eu dyfynnu, mae'n werth ystyried y terfynau cyflymder 20 mya fel enghraifft.

Roedd hi'n glir bod consensws cynyddol ynghylch beth yw'r cyflymder diogel mewn cymunedau ac y gallem adeiladu ar hynny. Rydym yn dal i gredu bod 20 mya yn iawn, ond rydym am sicrhau ein bod yn pennu'r cyflymder iawn ar y ffyrdd iawn.

Rhwng mis Ebrill a mis Awst 2024, fe wnaeth Ken Skates AS, yr Ysgrifennydd Cabinet, gwrdd â dinasyddion, gyrwyr bysiau, gwasanaethau brys, yr heddlu, pobl ifanc, pobl fregus, busnesau, cynghorwyr sir, tref a chymuned, awdurdodau lleol a llawer o rai eraill – i wrando arnynt a deall eu barn am ddiogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd preswyl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 74
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Gorffennaf 2024, rhoesom ganllawiau newydd i awdurdodau priffyrdd i'w gwneud yn gliriach pa ffyrdd gaiff fod yn 30 mya. Yn 2024, mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i awgrymu ble maent yn teimlo y dylid gwneud newidiadau.

Mae awdurdodau priffyrdd yn defnyddio ein canllawiau diwygiedig yn awr i asesu'r awgrymiadau hyn.

Er mwyn cael newid terfyn cyflymder, rhaid gwneud gorchymyn rheoleiddio traffig. Bydd y broses hon yn cymryd sawl mis i'w chwblhau.


Mae ein hymateb i'r adborth gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig yn dangos sut y dylai democratiaeth gynrychioliadol weithio a sut y mae wedi gweithio.

Er y gall refferenda alluogi ymgysylltu â'r cyhoedd a gwella'r broses ddemocrataidd mewn rhai amgylchiadau, mae ganddynt anfanteision sylweddol hefyd sy'n golygu bod rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Rydym yn nodi dadansoddiad a chasgliadau adroddiad Pwyllgor y Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, *Referendums in the United Kingdom*. Rydym yn nodi'n arbennig y dadleuon nad yw refferenda yn briodol ar gyfer datrys materion cymhleth ac y byddent yn gostus i'w gweinyddu. Mae'n werth nodi mai costau gweinyddu etholiad diwethaf y Senedd oedd £3,991,289.18 (nid yw hyn yn cynnwys costau yn gysylltiedig â Covid). Byddai costau cynnal refferenda lluosog yn ystod tymor y Senedd yn golygu mynd i wariant sylweddol. Rydym hefyd yn nodi'r ddadl y gallai refferenda danseilio democratiaeth gynrychioliadol.

Am y rhesymau hyn, er y gellir defnyddio refferenda i ymgynghori â'r cyhoedd ar faterion o arwyddocâd arbennig, nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros wyro oddi wrth arferion cyfansoddiadol sefydledig ein democratiaeth gynrychioliadol.

Yn ein barn ni, mae yna ffyrdd mwy priodol y gallwn eu defnyddio i wella ein hymgysylltiad â'r cyhoedd ar weithredu polisiau'r llywodraeth. Amlygodd adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yr heriau cynyddol i ddemocratiaeth Cymru, gan gynnwys lefelau isel o wybodaeth ymysg y cyhoedd am sefydliadau democrataidd Cymru ac ymgysylltu â hwy. Cynigiodd gyfres o ddiwygiadau i gryfhau democratiaeth yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu panel arbenigol i helpu i feithrin gallu ar gyfer arloesi democrataidd ac ymgysylltu cymunedol cynhwysol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr agenda hon ar hyn o bryd.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

P-06-1470 Cael gwared ar y Cynllun Cymru Wrth-hiliol, sy'n gynllun hiliol a hurt

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Ionawr 2025
Petitions Committee | 20 January 2025

Cyfeirnod: SR24/9547-14

Rhif y Ddeiseb: P-06-1470

Teitl y ddeiseb: Cael gwared ar y Cynllun Cymru Wrth-hiliol, sy'n gynllun hiliol a hurt

Geiriad y ddeiseb: Oeddech chi'n gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft yn 2020/21? Ailenwyd yn Gynllun Cymru Gwrth-hiliol? Na? DIM OND 500 o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn. Bwriad y "Cynllun" hwn yw newid polisïau'r Llywodraeth er mwyn bodloni cwotâu 'ecwiti'. Nid cydraddoldeb. Credaf fod hyn yn wahaniaethol ac yn hiliol ac yn seiliedig ar DDAMCANIAETH Hil Beirniadol (neu 'Critical Race Theory'). Yn ogystal ag ar brofiadau personol anecdotaidd. Nid ffeithiau. Mae'n rhybuddio am ganlyniadau dull gweithredu lliwddal. Mae angen cael gwared ar hyn ar unwaith.

Yn ôl Llywodraeth Cymru: "Drwy ymgysylltu â chymunedau a dadansoddi'r ymatebion i'n hymgynghoriad, daeth yn amlwg bod angen dull gweithredu gwrth-hiliol".

Yn fy marn i, mae hyn yn hyrwyddo gwahaniaethu a hiliaeth, yn gwastraffu ein harian, a bydd yn cael effaith ar Gymru gyfan. Wrth gyflwyno'r Cynllun Cymru Gwrth-hiliol, rhybuddir, "yn aml, tybir mai 'darparu'r un peth i bawb' fydd y gwasanaeth mwyaf priodol. Ond mewn gwirionedd, drwy ystyried gwahaniaethau pobl ... y ceir gwasanaeth mwy sensitif, hygrych ac effeithiol. Yn aml mae'r dull gweithredu lliwddall yn golygu bod pobl ethnig leiafrifol yn



ei chael hi'n anodd cael swyddi, camu ymlaen, neu gael gwasanaethau sy'n addas i'w hanghenion.

I ni, mae gwrth-hiliaeth yn ymwneud â mynd ati'n rhagweithiol i nodi a dileu polisïau, systemau, strwythurau a phrosesau sy'n arwain at ganlyniadau gwahanol iawn i grwpiau ethnig lleiafrifol."

Mae hyn yn warthus ac mae angen ei ddileu.

<https://www.llyw.cymru/cyflwyniad-ir-cynllun-cymru-wrth-hiliol-html>

1. Y cefndir

Yn gynnar yn 2020, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithio ar gynllun gweithredu ynghylch cydraddoldeb hiliol, yn dilyn galwadau gan Fforwm Hil Cymru, a sefydliadau eraill ar lawr gwlad. Cafodd y pandemig effaith anghymesur ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Yn ogystal, condemniwyd llofruddiaeth George Floyd gan bobl ledled y byd, a gwelwyd twf ym mudiad Black Lives Matter. Taflodd y digwyddiadau hyn oleuni ar yr hiliaeth systemig a wynebir gan gymunedau ethnig lleiafrifol, gan arwain at gyflymu'r broses o ddatblygu cynllun gweithredu.

Gwnaeth Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd, sefydlu Grŵp Cyngchori ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, er mwyn archwilio effaith y pandemig. Yna, sefydlwyd grŵp llywio i fwrw ymlaen â'i argymhellion ac i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru, a hynny o dan gadeiryddiaeth yr Athro Emmanuel Ogbonna ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

Cafodd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP) ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022. Nod y Cynllun yw "sicrhau newid mesuradwy i fywydau pobl ethnig leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth."

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd ym mis Rhagfyr 2023, ynghyd â chynllun wedi'i ddiweddarau ym mis Tachwedd 2024.

1.1. Yr ymgynghoriad

Mewn gohebiaeth a anfonwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Deisebau, dyddiedig 13 Rhagfyr 2024, codwyd

cwestiynau ynghylch honiad y deisebwyr mai dim ond 500 o bobl oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet:

Mewn gwirionedd, roedd yr ymateb yn llawer helaethach, ac yn tynnu ar dystiolaeth ac adborth gan ystod eang o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ac unigolion sydd wedi profi effaith hiliaeth yn uniongyrchol.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft ym mis Mawrth 2021. Roedd y cynllun drafft yn cynnwys camau gweithredu a nodau ar draws 13 maes polisi, ynghyd â nifer o nodau cyffredinol. Wrth wneud datganiad ynghylch cyhoeddi'r Cynllun, dywedodd Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar y pryd:

Mae nodweddion nodedig eraill yn y cynllun hwn sy'n ei osod ar wahân i gynlluniau eraill o'r math hwn. Mae'r egwyddor o gyd-greu wedi bod yn hanfodol i ddatblygu'r cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol. Mae cynnwys y cynllun wedi'i wreiddio ym mhrofiad byw pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae tua 2,000 o unigolion wedi rhannu eu barn ar yr hyn y dylai'r cynllun ei gynnwys ac ni fyddai'r cynllun wedi bod yn bosibl heb eu cyfraniadau nhw.

Daeth ymgyngoriad ar y cynllun gweithredu drafft i ben ym mis Gorffennaf 2021, a chafwyd 330 o ymatebion gan fwy na 1,992 o unigolion i gyd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o 255 o'r 330 o ymatebion a ddaeth i law. Dywedodd fod "66 o ymatebion wedi'u categorio fel ymatebion a oedd naill ai'n cynnwys sylwadau hiliol / sarhaus neu a oedd yn canolbwyntio ar faterion nad oeddent yn ymwneud â chynnwys yr ymgynghoriad hwn". Mae'r themâu allweddol wedi'u nodi ar dudalennau 6-7, gan gynnwys y canlynol:

Roedd tua 90 y cant o'r ymatebion yn cefnogi uchelgais y Cynllun a nodwyd yn ei weledigaeth, ei ddiben a'i werthoedd. Fodd bynnag, mynegodd 89 y cant o'r ymatebion amheuan ynghylch gallu'r Cynllun, yn y ffurf yr ymgynghorwyd arno, i lwyddo i gyflawni'r weledigaeth honno. Cyfeiriwyd at amrywiaeth o ffactorau i gefnogi'r amheuan hyn. Roedd y rhain yn cynnwys: maint y Cynllun; camau gweithredu coll; cyfeirio annigonol, neu ddim cyfeirio, at fonitro, gwerthuso a diffyg atebolrwydd.

Yn yr ohebiaeth a anfonwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Deisebau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r

cynllun yn arwain at wahaniaethu yn erbyn y boblogaeth fwyafrifol. Yn hytrach, dywedodd mai “nod y cynllun yw creu Cymru decach a mwy cynhwysol, lle mae gan bawb, waeth beth fo'u hil neu ethnigrwydd, gyfleoedd cyfartal”. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r cynllun, drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol, yn gwneud cymunedau yn fwy gwydn ac yn “rhoi cyfle i bawb gyfrannu a llwyddo”. Dywedodd hefyd:

Mae'n gynllun angenrheidiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb systemig a chreu Cymru decach i bawb. Nid yw'r camsyniadau yn y ddeiseb yn adlewyrchu gwir weledigaeth, pwrpas a gwerthoedd y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bawb yng Nghymru a bydd yn parhau i ymgysylltu â chymunedau i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu eu profiadau a'u hanghenion.

2. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ym mis Hydref 2020, mynegodd y Senedd ei chefnogaeth parthed “yr angen am Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb strwythurol a systemig, ac i hybu cyfleoedd i bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru”.

Rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2024, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ymchwiliad i'r broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei gweledigaeth ynghylch creu Cymru wrth-hiliol. Roedd sefydliadau a rannodd eu safbwyntiau gyda'r Pwyllgor yn cymeradwyo gweledigaeth a chwmpas cynhwysfawr y Cynllun. Fodd bynnag, cododd y rhan fwyaf bryderon am y broses o weithredu'r cynllun a chyfradd y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jane Hutt AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y
Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1470
Ein cyf/Our ref JH-/10227/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

13 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-06-1470, sy'n galw am gael gwared ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r pryderon a godwyd ac i dynnu sylw at rôl hanfodol y Cynllun wrth greu Cymru fwy cydlynol a chroesawgar.

Mae'r ddeiseb yn honni mai dim ond 500 o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mewn gwirionedd, roedd yr ymateb yn llawer helaethach, ac yn tynnu ar dystiolaeth ac adborth gan ystod eang o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ac unigolion sydd wedi profi effaith hiliaeth yn uniongyrchol.

Mae'r ddeiseb yn awgrymu y gallai'r Cynllun gael effaith negyddol ar y gymuned ehangach neu y gall arwain at arwain at wahaniaethu yn erbyn y boblogaeth fwyaf rifol. I'r gwrthwyneb, nod y cynllun yw creu Cymru decach a mwy cynhwysol, lle mae gan bawb, waeth beth fo'u hil neu ethnigrwydd, gyfleoedd cyfartal. Mae'r cyfeiriad at "symud y tu hwnt i ddull lliwddall o weithredu" yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod y gall trin pawb yr un fath, weithiau anwybyddu'r heriau unigryw sy'n wynebu pobl o gefndir ethnig leiafrifol. Trwy deilwra gwasanaethau a pholisïau i ddiwallu anghenion amrywiol, ein nod yw gwella canlyniadau i bawb.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn cryfhau ein cymunedau, gan eu gwneud yn fwy gwydn a rhoi cyfle i bawb gyfrannu a llwyddo. Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â phob math o hiliaeth, gan gynnwys gwrth-Semitiaeth ac Islamoffobia, gan sicrhau nad oes unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl ac y gall pob person yng Nghymru fyw mewn cymdeithas sy'n rhydd o ragfarn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80

Mae'n gynllun angenrheidiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb systemig a chreu Cymru decach i bawb. Nid yw'r camsyniadau yn y ddeiseb yn adlewyrchu gwir weledigaeth, pwrpas a gwerthoedd y Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bawb yng Nghymru a bydd yn parhau i ymgysylltu â chymunedau i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu eu profiadau a'u hanghenion.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J' and a distinct 'H'.

Jane Hutt AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Deddf newydd gan y Senedd i adalw cynghorwyr lleol

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Ionawr 2025
Petitions Committee | 20 January 2025

Cyfeirnod: SR24/9617/4

Rhif y ddeiseb: P-06-1477:

Teitl y ddeiseb: Deddf newydd gan y Senedd i adalw cynghorwyr lleol

Geiriad y ddeiseb: Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fecanwaith sy'n caniatáu i etholwyr gael gwared ar gynghorwyr sy'n gwasanaethu mewn awdurdod lleol, ac eithrio yn ystod etholiad, sy'n digwydd bob pum mlynedd. Mae angen Deddf newydd arnom, sy'n debyg i'r Ddeddf ar adalw Aelodau Seneddol, ond sy'n ymwneud y tro hwn ag adalw cynghorwyr. Mae angen Deddf debyg i Adalw ASau ond y tro hwn Adalw Cynghorwyr.

Credaf ei bod ond yn deg ein bod yn ymdrin â chynghorwyr lleol yn yr un modd ag yr ydym yn ymdrin ag Aelodau Seneddol. Os nad yw cynghorwyr yn cyflawni eu rolau, dylid cael gwared arnynt a rhoi pobl eraill yn eu lle, a fydd yn gwireddu dymuniadau pleidleiswyr.



1. Y cefndir

1.1. Dulliau adalw

Mae prosesau adalw – y modd y gall gwleidydd etholedig gael ei ddiswyddo gan ei etholwyr rhwng etholiadau – yn arfer cymharol brin mewn deddfwrfeydd democrataidd. Senedd y DU oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y DU i gyflwyno system adalw, a hynny drwy Ddeddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 ar gyfer Aelodau Tŷ'r Cyffredin.

Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd wrthi'n casglu tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol ynghylch a ddylid cyflwyno mecanwaith adalw ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

1.2. System San Steffan

Gwnaeth Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 ddarparu system adalw ar gyfer Aelodau Tŷ'r Cyffredin am y tro cyntaf.

Dim ond os bodlonir un o'r tri amod a ganlyn y gellir agor deiseb adalw mewn etholaeth yn erbyn AS:

- Mae'r Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, wedi cael euogfarn o drosedd ac wedi cael ei ddedfrydu i gael ei garcharu neu ei gadw'n gaeth am gyfnod o lai na 12 mis (gan gynnwys dedfryd ohiriedig).¹
- Yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Safonau, mae Tŷ'r Cyffredin yn gorchymyn atal yr Aelod Seneddol o'r Tŷ am gyfnod penodedig o 10 diwrnod eistedd fan leiaf (neu 14 diwrnod calendr).
- Mae'r Aelod Seneddol, ar ôl dod yn Aelod, wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 10 o Ddeddf Safonau Seneddol 2009 (os yw'n darparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn perthynas â chefnogi hawliad am lwfansau).

Er mwyn i ddeiseb lwyddo, rhaid iddi gael ei llofnodi gan 10% o etholwyr cofrestredig cymwys ar y gofrestr seneddol yn yr etholaeth honno.

Ceir rhagor o wybodaeth am asedau cymunedol yn y papur briffio hwn gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

¹ Pe bai Aelod Seneddol presennol yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd ac yn cael dedfryd o garchar sy'n hirach na blwyddyn ac yn cael ei gadw'n gaeth, byddai eisoes yn colli ei sedd yn awtomatig, felly ni fyddai adalw yn berthnasol.

1.3. Atebolrwydd Cynghorwyr

Er nad oes mecanwaith i adalw cynghorwyr yng Nghymru, mae nifer o fesurau atebolrwydd eraill eisoes ar waith.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu ar gyfer cyhoeddi set o egwyddorion i lywodraethu ymddygiad cynghorwyr a Chod Ymddygiad Enghreifftiol.

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 yn gosod yr egwyddorion hyn:

Anhunanoldeb	Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
Gonestrwydd	Cydraddoldeb a Pharch
Uniondeb a Chywirdeb	Bod yn agored
Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith	Atebolrwydd
Stiwardiaeth	Arweinyddiaeth

Mae'r egwyddorion hyn yn gosod y fframwaith moesegol ar gyfer sut y dylai cynghorwyr weithredu yn eu rolau. Mae hefyd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael Cod Ymddygiad i aelodau yn seiliedig ar fodel cenedlaethol. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol wedi'i nodi yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008.

Gall aelodau'r cyhoedd gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydynt yn credu bod cynghorydd wedi torri ei God Ymddygiad. Bydd yr Ombwdsmon yn asesu'r achos ac yn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Os yw'n penderfynu bod y cynghorydd wedi gwneud rhywbeth o'i le a bod angen cymryd camau pellach, gall gyfeirio ei hadroddiad i Bwyllgor Safonau yr awdurdod lleol perthnasol neu i Banel Dyfarnu Cymru.

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn dribiwnlys annibynnol sy'n penderfynu a yw cynghorwyr (ac aelodau o awdurdodau cyhoeddus eraill) wedi torri eu Cod Ymddygiad. Mae'n cael tystlythyrau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac yn ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau Safonau awdurdodau. Mae'r penderfyniadau a wneir gan y Panel yn cael eu cyhoeddi ar ei wefan.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n gosod dyletswydd ychwanegol ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol o fewn y 22 awdurdod lleol yng

Nghymru. Gosodir dyletswyddau newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grwpiau. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithredu â Phwyllgor Safonau'r cyngor.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn 2021, comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd adolygiad annibynnol o fframwaith safonau moesegol llywodraeth leol yng Nghymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan Richard Penn, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Daeth i'r casgliad mai'r "consensws cyffredinol" yw bod y fframwaith presennol yn 'addas at y diben', yn gweithio'n dda yn ymarferol ac yn cael ei weld gan lawer fel "llawer gwell na'r un a ddefnyddir o fewn llywodraeth leol yn Lloegr ar hyn o bryd".

Fodd bynnag, argymhellodd nifer o fân addasiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, gan gynnwys pennu trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol datgan rhoddion neu letygarwch sy'n mynd y tu hwnt iddo, ffurfioli canllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a gorfodi aelodau i roi gwybod am eu hymddygiad troseddol eu hunain. Argymhellodd yr adolygiad hefyd y dylai fod hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad i bob aelod o brif gynghorau a chynghorau cymuned ac y dylid ehangu pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror 2023.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Mae Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd wrthi'n ystyried y mater o adalw Aelodau'r Senedd fel rhan o'i ymchwiliad i Atebolwydd Aelodau Unigol. Mae hyn yn dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i weithio i sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno cyn etholiad 2026 i sefydlu system adalw ar gyfer y Senedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1477
Ein cyf/Our ref JB/10236/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

02 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Deiseb P-06-1477 - Deddf newydd gan y Senedd i Adalw Cynghorwyr Lleol.

Disgwylir i gynghorwyr yng Nghymru gynnal y safonau ymddygiad uchaf er mwyn sicrhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Dylent ymddwyn gydag uniondeb, gonestrwydd a thryloywder, gan sicrhau bod eu gweithredoedd er budd pennaf y gymuned bob amser. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, sy'n amlinellu egwyddorion megis anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Yn ogystal, dylai cynghorwyr osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau a sicrhau nad ydynt yn manteisio ar eu swydd er budd personol. Mae cyfathrebu effeithiol, parch at eraill, ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd yn agweddau hanfodol ar eu rôl.

Pan nad yw ymddygiad cynghorydd yn cyrraedd y safonau hyn, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion am dorri'r Cod Ymddygiad. Pan fo achos o dorri'r Cod, gellir rhoi camau gweithredu ar waith megis hyfforddiant, cyfryngu, neu mewn achosion difrifol, atal neu anghymhwyso'r cynghorydd o'r swydd.

Mae gan gynghorau eu pwyllgorau safonau eu hunain y disgwylir iddynt hyrwyddo ac adrodd ynghylch cynnal safonau ymddygiad uchel yn rhagweithiol. Mae'r Pwyllgorau yn cynnwys aelodau lleyg a chânt eu cadeirio gan aelod lleyg er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgorau lefel addas o annibyniaeth ar y cyngor. Mae'r mesurau hyn yn helpu i gynnal uniondeb llywodraeth leol.

Ceir hefyd fframwaith deddfwriaethol cynhwysfawr sy'n ymwneud ag anghymhwyso aelodau o lywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys anghymhwyso'r rhai mewn swydd sydd wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau difrifol.

Yn ddiweddar, trafodwyd y mater ynghylch ymddygiad aelodau etholedig yn rhan o drafodaethau wrth basio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 86
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y Senedd, yn sgil y cyd-destun diwygio ehangach, cafodd ymrwymiad ei wneud i gyflwyno gweithdrefn adalw. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae gan lywodraeth leol fframwaith moesegol cadarn eisoes. Cafodd hwn ei adolygu yn annibynnol yn ddiweddar ac ni ddaeth unrhyw bryderon difrifol i'r amlwg. Nid yw'n fater felly sydd wedi bod, yn ddiweddar, yn destun trafodaeth fanwl â llywodraeth leol nac ymgynghoriad ehangach â'r cyhoedd. Er mwyn ymdrin â hyn ymhellach, byddai angen ystyried pa weithdrefnau y gellid eu rhoi ar waith a fyddai'n gweithio gyda'r fframwaith hwn a'r cynllun anghymwyso sy'n bodoli eisoes.

Mae'n bwysig nodi y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn ofynnol ar gyfer unrhyw newidiadau yn y maes hwn. Edrychaf ymlaen at glywed barn y Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Jayne' in a cursive, flowing script.

Jayne Bryant AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

P-06-1477: Advocating for a Recall Mechanism for Local Government Councillors, Correspondence from the Petitioner to the Committee, 13 January 2025

Dear Petitions Committee,

I am writing to provide further context and support for Petition P-06-1477, which calls for the introduction of a Senedd Act to establish a recall mechanism for local government councillors in Wales. The petition garnered 686 signatures from constituents across all Welsh constituencies within a notably short timeframe, underscoring the widespread public support for this initiative.

Currently, the mechanisms in place to address councillor misconduct or neglect are limited to breaches of the Code of Conduct or the commission of serious criminal offences. While these safeguards are essential, they do not encompass situations where councillors neglect their public duties without overtly violating the Code or engaging in criminal activity.

For instance, the Local Government Act 1972 mandates that councillors must attend at least one meeting within a six-month period—the so-called “six-month rule.” However, this requirement can be circumvented by councillors who attend a single meeting just before the six-month deadline, thereby resetting the attendance clock without genuinely engaging in their duties. Such practices enable councillors to receive allowances while minimally participating in council activities and neglecting constituent communications throughout their term.

Moreover, there are instances where councillors fail to engage with their constituents throughout their entire elected term. This lack of engagement undermines the principles of representation and accountability that are fundamental to local governance.

The absence of a recall mechanism means that constituents have no recourse to address such neglect until the next election cycle, which occurs every five years. This lack of accountability can lead to diminished public trust in local governance and a sense of disenfranchisement among voters.

Implementing a recall mechanism for local government councillors would align their accountability measures with those already in place for Members of Parliament, as established by the Recall of MPs Act. This would empower constituents to take action when a councillor fails to fulfill their duties, ensuring that elected officials remain responsive and responsible to the communities they serve.

I urge the committee to consider the merits of this petition and the potential benefits of introducing a recall mechanism to enhance the integrity and accountability of local government in Wales.

Thank you for your attention to this matter.

Sincerely, Russell Spencer-Downe

Rhoi llais i gymdogion pan fydd perchnogion llety gwyliau yn dechrau gwneud cais am drwyddedau

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Ionawr 2025
Petitions Committee | 20 January 2025

Cyfeirnod: SR24/10372-7

Rhif y Ddeiseb: P-06-1483

Teitl y ddeiseb: Rhoi llais i gymdogion pan fydd perchnogion llety gwyliau yn dechrau gwneud cais am drwyddedau

Geiriad y ddeiseb:

Mae miloedd o letyau gwyliau yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod llawer ohonom yn cael ein bod o'r sydyn yn byw yn ymyl busnesau yn lle cartrefi, a ninnau heb unrhyw ddweud yn y mater.

Mae'r cynllun trwyddedu llety gwyliau yn yr Alban yn caniatáu i gymdogion ymateb i geisiadau am drwydded: yna gall ymatebion y cymdogion gael eu hystyried fel sail bosibl dros wrthod cais.

Rydym am i Lywodraeth Cymru gynnwys ymgynghoriad â chymdogion yng nghynllun trwyddedu llety gwyliau Cymru hefyd.

Gwybodaeth ychwanegol:

Yn ogystal â galluogi darparwyr llety gwyliau i ddangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion ansawdd a diogelwch, credwn y dylai'r cynllun trwyddedu yng Nghymru hefyd fynd i'r afael â'r materion mae cymdogion yn eu hwynebu.



Disgwylir i ddeddfwriaeth ar gyfer cynllun trwyddedu llety gwyliau yng Nghymru gael ei chyflwyno yn y Senedd cyn diwedd 2024, ac rydym am i Lywodraeth Cymru fabwysiadu cynllun trwyddedu Llywodraeth yr Alban yn y modd canlynol:

1. caiff cymdogion eu hysbysu ynghylch ceisiadau am drwyddedu newydd a cheisiadau i adnewyddu trwyddedau;
2. caiff cymdogion godi gwrthwynebiadau/pryderon mewn ymateb i gais am drwydded;
3. caiff gwrthwynebiadau cymdogion eu hystyried yn sail bosibl dros wrthod cais am drwydded.

1. Y cefndir

Roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru ill dau yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau yng Nghymru. Er bod y Cytundeb Cydweithio wedi dod i ben, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fwriadu bwrw ymlaen â hyn.

2. Trwyddedu llety gwyliau tymor byr yn yr Alban

Cymeradwyodd Senedd yr Alban *Orchymyn Deddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982 (Trwyddedu Llety Gwyliau Tymor Byr) 2022* ("y Gorchymyn Trwyddedu") ym mis Ionawr 2022. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yn yr Alban gyflwyno system drwyddedu ar gyfer llety gwyliau tymor byr yn eu hardal erbyn 1 Hydref 2022.

Mae'r nodyn polisi sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn Trwyddedu yn datgan:

The Scottish Government's purpose in the regulation of short-term lets is to ensure that local authorities have appropriate regulatory powers to balance the needs and concerns of their communities with wider economic and tourism interests.

The Licensing Order establishes a licensing scheme to ensure short-term lets are safe and address issues faced by neighbours; and to facilitate local authorities in knowing and understanding what is happening in their area as well as to assist with handling complaints effectively.

Mae'r Canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth yr Alban yn nodi bod gan ymgeiswyr gyfrifoldeb am roi hysbysiad o gais am drwydded gosod tymor byr newydd, neu adnewyddu trwydded gosod tymor byr. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr arddangos hysbysiad safle am 21 diwrnod yn yr eiddo neu'n agos ato, fel y gall y cyhoedd ei ddarllen yn hwylus. Rhaid i'r hysbysiad safle nodi bod cais wedi'i wneud am drwydded, prif ffeithiau'r cais, ac egluro sut y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau mewn perthynas â'r cais i'r awdurdod trwyddedu.

3. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Cynnig Llywodraeth Cymru yw cyflwyno deddfwriaeth newydd i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gael trwydded i weithredu, y mae'n awgrymu y byddai'n helpu i godi safonau ar draws y diwydiant, yn sicrhau diogelwch ymwelwyr ac yn rhoi chwarae teg i bob gweithredwr.

Lansiwyd ymgyngoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ar y cynigion ym mis Rhagfyr 2022, i ofyn barn ar y gwahanol ffyrdd y gallai cynllun trwyddedu weithredu. Nid oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys dim cyfeiriad at ganiatáu i aelodau'r cyhoedd godi gwrthwynebiadau fel rhan o'r broses o wneud cais am drwydded.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb yn amlygu bod gan awdurdodau lleol y grym i "gyflwyno'r hyn a elwir yn Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau, pan fyddant yn poeni am yr effaith ar eu cymunedau". Mae'r ymateb hefyd yn nodi'r canlynol:

Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu effaith leol llety gwyliau newydd mewn eiddo preswyl ac ystyried pa gamau sydd eu hangen i ddiogelu buddiannau eu cymunedau. O ganlyniad i hynny, nid ydym yn cynnig cynnwys ymgynghoriad cymunedol neu breswyl fel rhan o broses drwyddedu genedlaethol. Mae gan awdurdodau lleol bwerau eisoes i gyflwyno rheolaethau cynllunio i ddelio â'r materion hyn, yn enwedig lle mae pryder lleol sylweddol.

Ym mis Medi 2024, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod cynllunio lleol cyntaf yng Nghymru i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion eiddo gael caniatâd cynllunio cyn newid defnydd prif breswylfa yn ail gartref neu lety gwyliau.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd wedi cyflwyno hysbysiad ei fod yn cynnig gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 tebyg, a fyddai'n dod i rym ar 1 Mehefin 2025.

O ran amseriad y ddeddfwriaeth arfaethedig ar drwyddedu darparwyr llety i ymwelwyr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2024, 'rydym yn gweithio ar y sail y bydd yn Fil a gaiff ei gyflwyno yn 2025'.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1483
Ein cyf/Our ref RE/10340/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu a'n Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru ill dau yn nodi ein hymrwymiad i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau fel rhan o becyn o fesurau i fynd i'r afael â'r effaith negyddol y gall cyfran uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar gymunedau. Er bod y Cytundeb Cydweithio wedi dod i ben, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i reoleiddio llety i ymwelwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon am yr effaith y gall rhai llety gwyliau tymor byr ei chael ar stoc dai mewn cymunedau a thystiolaeth anecdotaidd o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, neu ddealltwriaeth ohonynt. Rydym eisoes wedi rhoi mesurau ar waith i helpu awdurdodau lleol i reoli'r effaith y gall llety gwyliau ac ail gartrefi ei chael mewn ardaloedd preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio premiymau treth gyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag, a chyflwyno dosbarth defnydd cynllunio newydd i wahaniaethu rhwng prif gartrefi, ail gartrefi a llety gwyliau.

Mae'r diwygiadau hyn i ddeddfwriaeth gynllunio yn golygu y gall Awdurdod Cynllunio Lleol gyflwyno'r hyn a elwir yn gyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau, pan fyddant yn poeni am yr effaith ar eu cymunedau. Ar ôl cymryd y camau angenrheidiol, mae cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i fynnu bod perchnogion eiddo yn cael caniatâd cynllunio cyn newid defnydd eu heiddo yn ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr.

The VDPS state there's no epidemiological evidence, which is difficult because there's currently no tests to find out why I've reacted the way I have.

By not having a diagnostic pathway, we are being stopped from providing the evidence that is needed to successfully claim the VDPS

If you can prove causation, you then have to pass the 60% disablement

They use an outdated assessment, which doesn't cover so many of the symptoms that the vaccine injured are experiencing eg Neurological , Postural tachycardia syndrome (PoTS), Mast Cell Activation Syndrome (MCAS) , Post-Exertional Malaise (PEM) etc If you lose your limb it's awarded but eg not if neurological symptoms giving you problems with walking it's not listed (17)

Guidance the medical assessor uses for the Vaccine Damage Payment Scheme (18)

"Independent medical assessors use resources to support their assessment, including, but not limited to, some or all of the following:

- Vaccine Damage Payment Scheme - [Principles of Medical Assessment Guidance \(Word: 336KB\)](#)
- Medicines and Healthcare products Regulatory Agency (MHRA) data, including [Yellow Card](#) information on suspected safety concerns involving a healthcare product
- Vaccine product information and updates
- The Green Book - a reference material produced by the UK Health Security Agency and used by healthcare professionals in the UK. The Green Book brings together all documents relating to immunisation against infectious diseases. Visit [Immunisation against infectious disease: the green book front cover and contents page - GOV.UK](#) for more details
- Detailed guidance on disablement assessments relating to Schedule 2 of [The Social Security \(General Benefit\) Regulations 1982 \(legislation.gov.uk\)](#), which have been developed by the Department of Work and Pensions (DWP)
- [World Health Organization \(WHO\)](#) documents
- Established and accepted medical epidemiological research papers

- Past tribunal decisions and case law"

In the Principles of Medical Assessment Guidance

Item 3 , Medical Assessment, General Principles (19)

Quote "Clinical diagnosis should normally be accepted without a need to review. "

The diagnosis by my NHS Consultant was dismissed by the VDPS

Freedom of information ref 02351 ref Vaccine Damage Payment Scheme awarded

As of October 31st 2024 (20).

Currently, **16,824** claims have been received by the Vaccine Damage Payment Scheme (VDPS)

8,806 claimants have been notified of an outcome.

7,748 claims have been rejected, and a further 716 did not meet the criteria for medical assessment,

8,208 claims were unsuccessful because the independent medical assessor recommended that, on the balance of probabilities, the vaccine did not cause the disability in question (causation).

406 claims were unsuccessful because, although the claims met the criteria for causation, the independent medical assessor recommended that the vaccine has not caused severe disablement.

70 claims where an award outcome has been communicated were made on behalf of someone who has died.

(Copyright NHSBSA 2024)

Acknowledge

Whilst I acknowledge that the MHRA Yellow card, the Vaccine Damage Payment Scheme is out of the scope of the Welsh Government. I've responded because Jeremy Miles explains about them in his response

Wes Streeting meets members from VIBUK

Recently some members of VIBUK (another vaccine injured and bereaved group) had a meeting with Health Secretary Wes Streeting to make their case for a reform of the Vaccine Damages Payment Scheme (VDPS). <https://www.leighday.co.uk/news/news/2024-news/vaccine-tragedy-campaigners-hopes-raised-by-meeting-with-wes-streeting/>

MHRA Yellow card reporting

Updating your yellow card is extremely challenging. In an email to Eluned Morgan April 2022 I'd explained how challenging this was. (21)

I've been in contact several times to the MHRA yellow card. I've had to chase up replies. I have even challenged them on why I wasn't asked any further questions, after I'd sent them information regarding being diagnosed by a Neurologist with unexplained neurological symptoms in the aftermath of a covid vaccine.

I was then sent several questions regarding my health, tests etc. When I'd updated them again, this time ref the Post Covid Vaccine Sequelae diagnosis, all they asked was for the clinic report. Since last contact made in early 2023, no one has been in contact with me. It's always been me contacting them. I have now given up on trying to keep them updated.

To the best of my knowledge no medical professional has submitted a yellow card for me. I've got copies of my emails to and from the MHRA Yellow card as evidence as how difficult it is to update. I've also requested a copy of my yellow card report (22)

As of 2nd January 2025 Yellow Card reports (23)

AstraZeneca Yellow card reports of adverse reactions ...

Total number of reports of suspected ADRs 249,496

Total number of suspected adverse reactions 885,374

Total number of suspected ADRs which were serious 193,388

Total number of of reports of suspected ADRs with a fatal outcome 1,468

Question : If any other medication has over 1,000 suspected ADRs with a fatal outcome , would that medication be recalled?

Consideration

Please kindly take into consideration that due to health problems with fatigue, brain fog etc that any requests for further information may take me time to put together. Therefore, if you request further information, I might have to kindly request a reasonable adjustment in the timescale due to the current disabilities I'm facing.

Example - I'd received a very similar worded response from Jeremy Miles dated 21st November 2024 (24) and I'd already had been putting together a response since then, as the wording to both response are very similar and I'd most of the response written out ready, I am able to make this deadline . If I hadn't, I might not have completed this detailed response in just the 7 days' notice given for the 13th of January deadline.

I'm sorry this is more than the recommended 4 A4 pages, there is so much information to include. I've never done anything like this before and I hope the referencing is acceptable. I would also appreciate that items 1,3,7,8,9,16,22, are not published on the Senedd website because these are my personal medical information

References - links and also files attached

1. Post COVID Vaccine Sequelae diagnosis clinic letters x 2 PDFs
2. <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-vaccination-care-home-and-healthcare-settings-posters/covid-19-vaccination-first-phase-priority-groups>
3. Neurologist clinic report
4. AstraZeneca Patient information leaflets from March & May 2021
- 5a. <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-approval-of-covid-19-vaccine-astrazeneca/information-for-uk-recipients-on-covid-19-vaccine-astrazeneca>
- 5b. <https://www.astrazeneca.com/content/dam/azcovid/pdf/malta/en-epil-AZD1222.pdf>
- 6a. <https://news.sky.com/story/family-of-man-who-took-own-life-after-covid-jab-complications-call-for-action-on-government-compensation-13217959>
- 6b. <https://www.scottishdailyexpress.co.uk/news/scottish-news/scotlands-vaccine-injured-feel-abandoned-29951760>
7. Independent Registered Medical Practitioner ill health retirement assessment report
8. CEO response ABUHB - with paragraph ref long covid recovery
9. Physiotherapy clinical letter - evidence of the graded approach to exercise
- 10a. <https://longcovid.physio/exercise>
- 10b. <https://longcovid.physio/fatigue>
- 10c. <https://world.physio/sites/default/files/2021-06/WPTD2021-InfoSheet3-Fatigue-and-PESE-Final-A4-v1.pdf>
11. <https://business.senedd.wales/documents/s138458/CC11%20-%20Alison%20Butler.pdf>
12. Every story matters - my experience of healthcare after the covid vaccine
13. UKCV family information pack & charity announcement
14. <https://www.ukcvfamily.org>
15. <https://www.gov.uk/vaccine-damage-payment>
16. VDPS report
17. <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/1982/1408/schedule/2>
18. <https://www.nhsbsa.nhs.uk/vaccine-damage-payment-scheme-vdps-claim-process>
19. <https://www.nhsbsa.nhs.uk/sites/default/files/2024-11/Principles%20of%20medical%20assessment%20%28Nov%2024%29.docx>
20. <https://opendata.nhsbsa.net/dataset/foi-02351>
21. Email to Eluned Morgan and reply
22. Alison Butler Yellow card report
23. <https://yellowcard.mhra.gov.uk/idaps/CHADOX1%20NCOV-19>
24. Response from Jeremy Miles dated November 2024

Further links

Covid Inquiry Module 4 Vaccines and Therapeutics

[https://www.hudgellsolicitors.co.uk/news/public-inquiry/groups-give-covid-19-public-inquiry-evidence-of-vaccine-illness-and-lost-lives?](https://www.hudgellsolicitors.co.uk/news/public-inquiry/groups-give-covid-19-public-inquiry-evidence-of-vaccine-illness-and-lost-lives?_gl=1*ur3acm*_up*MQ..*_ga*MTM1OTUwMTQxMC4xNzY2MzI5ODYz*_ga_DVD8DVXRFE*MTczNjMyOTg2Mi4xLjAuMTczNjMyOTg2Mi4wLjAuMA..)

[_gl=1*ur3acm*_up*MQ..*_ga*MTM1OTUwMTQxMC4xNzY2MzI5ODYz*_ga_DVD8DVXRFE*MTczNjMyOTg2Mi4xLjAuMTczNjMyOTg2Mi4wLjAuMA..](https://www.hudgellsolicitors.co.uk/news/public-inquiry/groups-give-covid-19-public-inquiry-evidence-of-vaccine-illness-and-lost-lives?_gl=1*ur3acm*_up*MQ..*_ga*MTM1OTUwMTQxMC4xNzY2MzI5ODYz*_ga_DVD8DVXRFE*MTczNjMyOTg2Mi4xLjAuMTczNjMyOTg2Mi4wLjAuMA..)

Preliminary hearing 13 September 2023

Pages 85-105

<https://covid19.public-inquiry.uk/wp-content/uploads/2023/09/13194707/C-19-Inquiry-13-September-23-Module-4-prelim.pdf>

Preliminary hearing 22 May 2024 Transcript

Pages 69-88

<https://covid19.public-inquiry.uk/wp-content/uploads/2024/05/23094440/C-19-Inquiry-Mod-4-prelim-22-May-2024-amended.pdf>

P-06-1494: Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol

Y Pwyllgor Deisebau | 20 Ionawr 2025
Petitions Committee | 20 January 2025

Cyfeirnod: SR2410372-6

Rhif y ddeiseb: P-06-1494

Teitl y ddeiseb: Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol

Testun y ddeiseb: Mae Diwygio ADY Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid mewn addysg rhag toriadau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Mae nifer o adroddiadau am awdurdodau lleol yn cyhoeddi ymgynghoriadau neu gyllidebau gwirioneddol gyda thoriadau enfawr i gyllideb addysg. Mae Jeremy Miles wedi addo buddsoddi mewn addysg. Ni ellir caniatáu i hyn ddigwydd i aelodau mwyaf bregus cymdeithas. Mae adroddiadau diweddar yn dangos bod safonau addysg Cymru wedi gostwng. Addysg ein plant yw'r buddsoddiad gorau mewn cyfiawnder cymdeithasol ac economi iach.

1. Crynodeb

- Mae ysgolion yn cael eu cyllidebau gan awdurdodau lleol, sy'n defnyddio'r arian a gânt gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad llywodraeth leol i ddarparu'r amrywiaeth o wasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.



- Arian gan yr awdurdod lleol yw'r rhan helaeth o'r cyllid a gaiff ysgolion, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o gyllid i ysgolion o'i chyllideb addysg drwy'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.
- Cyfeirir at yr arian y mae awdurdodau lleol wedi bwriadu ei wario ar ysgolion fel gwariant sydd wedi'i gyllidebu. Mae'r cyllid hwn **wedi cynyddu 7.4 y cant yn 2024-25** o gymharu â 2023-24, ac wedi cynyddu 35.2 y cant ers 2019-20. Mae hyn yn gynydd o 10.8 y cant mewn termau real ers 2019-20 ac yn gynydd o 2.5 y cant mewn termau real ers 2010-11.
- Mae gwaith gan Bwyllgorau'r Senedd i graffu ar **Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd**. Mae Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2025-26 yn darparu **cynydd o 4.3 y cant ar gyfartaledd i awdurdodau lleol** o gymharu â 2024-25.
- Mae **cronfeydd wrth gefn yng nghyllidebau ysgolion**, sef yr arian y mae'r ysgolion eu hunain yn ei ddal ac a gofnodir fel y mae ar un adeg benodol yn y flwyddyn, wedi bod yn **hanesyddol uchel**, gan gyrraedd pen llanw yn ystod ac ar ôl y pandemig, er bod y symiau wedi **gostwng yn ystod y ddwy flynedd diwethaf**.
- Mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** wedi rhybuddio bod ysgolion yn **wynebu pwysau** chwyddiant ac wedi adrodd am ddiffygion ariannol, yn bennaf yn gysylltiedig â chyflogau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu **£38 miliwn yn 2025-26 i gefnogi'r gwaith o weithredu diwygiadau ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol i'r arian sydd wedi'i gynnwys yng nghyllidebau craidd ysgolion i gefnogi disgyblion ag ADY (£592 miliwn yn 2024-25, sef cynnydd o 7.7 y cant ar y flwyddyn flaenorol).

2. Deisebau blaenorol a gwaith craffu arall yn y Senedd

2.1. Hydref 2023

Bu'r Pwyllgor hwn yn trafod deiseb flaenorol yn yr hydref 2023, yn galw ar Lywodraeth Cymru i “adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru”. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gadeiryddion llywodraethwyr a phenaethiaid ysgol ym mis Tachwedd 2023.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn iddynt graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 i dynnu sylw at y materion perthnasol. Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyllidebau ysgolion yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 a oedd yn cynnwys sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

2.2. Y Bumed Senedd: 2019

Trafododd Pwyllgor Deisebau'r Bumed Senedd ddeiseb debyg yn 2019, sef “Dylid diogelu cyllid ysgolion neu gyfaddef bod y gwasanaeth a ddarperir yn gwanhau” (P-05-872). Tynnwyd y ddeiseb hon i sylw Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd a oedd yn cynnal ymchwiliad polisi i gyllid ysgolion ar y pryd. Roedd hwn yn ystyried a oedd y swm cyffredinol o gyllid a oedd ar gael i ysgolion yn ddigonol a'r modd yr oedd y cyllid hwnnw'n cael ei ddosbarthu. Mewn ymateb, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad gan yr economegydd addysg, Luke Sibieta.

2.3. Gwaith craffu parhaus ar y gyllideb

Unwaith eto, disgwylir i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg godi cyllidebau ysgolion gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ystod ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ar 16 Ionawr.

3. Sut mae ysgolion yng Nghymru yn cael eu hariannu?

3.1. Cyllid heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau lleol

Daw'r rhan fwyaf o gyllid ysgolion gan awdurdodau lleol, a daw'r rhan fwyaf o'u cyllid hwy o'r setliad llywodraeth leol blynyddol a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian hwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer Tai a Llywodraeth Leol ('Prif Grŵp Gwariant').

I roi hyn yn ei gyd-destun, o'r £3.6 biliwn a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion yn y flwyddyn bresennol (2024-25), mae tua £3.3 biliwn yn dod gan awdurdodau lleol. Daw'r gweddill o gyllideb Addysg Llywodraeth Cymru (gweler adran 3.2 isod).

Cyllid heb ei neilltuo yw'r setliad llywodraeth leol, felly bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddynt i'r gwasanaethau amrywiol y maent yn eu darparu, gan gynnwys addysg, a nhw sy'n penderfynu faint i'w roi i ysgolion o fewn y dyraniad hwnnw.

Mae **tri phrif gam** i'r broses o bennu cyllidebau ysgolion.

- Yn gyntaf, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi Grant Cynnal Refeniw i bob awdurdod lleol. Ynghyd â'i ddyraniad ardrethi annomestig ailddosbarthedig, mae hyn yn rhan o Gyllid Allanol Cyfun yr awdurdodau lleol. Bydd pob awdurdod lleol yn defnyddio'r cyllid hwn, ynghyd â'r arian y mae'n ei godi drwy'r dreth gyngor, i ariannu'r amrywiaeth o wasanaethau y bydd yn eu darparu, gan gynnwys addysg. Caiff **Grant Cynnal Refeniw pob awdurdod lleol ei bennu drwy ddefnyddio fformwla** sy'n seiliedig ar Asesiadau Gwariant Safonol, sef cyfrifiad tybiannol o'r cyllid sydd ei angen ar bob awdurdod lleol i gynnal lefel safonol o wasanaeth. Caiff yr Asesiadau hyn eu rhannu'n Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion sy'n modelu'r swm tybiannol sydd ei angen ar bob

sector gwasanaeth. 'Gwasanaethau ysgolion' yw un o'r sectorau a ddefnyddir i bennu'r Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion.¹

- Yn ail, unwaith y byddant wedi penderfynu faint o'u cyllideb gyffredinol y maent am ei ddrynnu i addysg, mae awdurdodau lleol yn pennu **cyllideb addysg sydd â thair haen**:
 - Caiff Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol ei gwario ar swyddogaethau canolog sy'n ymwneud ag addysg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wariant ar ysgolion.
 - Mae'r Gyllideb Ysgolion yn cynnwys gwariant sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at gefnogi ysgolion, ond ystyrir ei bod yn fwy effeithiol gweinyddu'r gwariant hwn yn ganolog.
 - Y Gyllideb Ysgolion Unigol yw gweddill y cyllid addysg a ddirprwyir i ysgolion.
- Yn drydydd, mae'r awdurdod lleol yn **pennu'r gyllideb unigol ar gyfer pob ysgol** y mae'n ei chynnal, gan ddosrannu'r Gyllideb hon yn ôl ei fformwla ei hun a bennir yn lleol, o fewn y paramedrau a bennwyd gan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

¹ Dywed Llywodraeth Cymru nad yw Asesiadau Gwariant Safonol nac Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion yn dargedau gwariant ac na ddylid eu trin felly. Maent yn cynrychioli amcangyfrif tybiannol o'r hyn sydd ei angen ar awdurdod lleol i ddarparu lefel safonol o wasanaeth (er eu bod yn dibynnu ar y swm cyffredinol o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y setliad llywodraeth leol). Maent hefyd yn cynnwys y swm y tybir y gall yr awdurdod lleol ei godi drwy'r dreth gyngor.

3.2. Cyllid ychwanegol o gyllideb addysg Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â'r gyllideb a gaiff pob ysgol gan yr awdurdod lleol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol, sy'n cefnogi blaenoriaethau ac amcanion cenedlaethol.

Cafodd y Grant Addysg i Awdurdodau Lleol ei greu yn 2024-25 ar ôl uno nifer o ffrydiau ariannu a oedd ar wahân cyn hynny. Y ddwy brif elfen o'r cyllid hwn oedd y Grant Datblygu Disgyblion a grant a oedd eisoes wedi ei becynnu ar ffurf Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. Mae cyllid arall sydd wedi ei gwmpasu yn cynnwys grantiau Cymraeg mewn Addysg a'r cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a roddwyd ar waith ar gyfer adferiad addysgol yn dilyn y pandemig.

Mae'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol yn cynnwys pedwar llinyn gwerth cyfanswm o £379 miliwn yn 2024-25² a £400 miliwn yn 2025-26. Mae'r dyraniadau i'r pedwar llinyn hyn fel a ganlyn:

- Diwygio Addysg: 2024-25: £59 miliwn, 2025-26: £67 miliwn
- Safonau Ysgolion: 2024-25: £160 miliwn, 2025-26: £168 miliwn
- Tegwch mewn Addysg (gan gynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion): 2024-25: £150 miliwn, 2025-26: £156 miliwn
- Cymraeg 2050: 2024-25: £10 miliwn, 2025-26: £9 miliwn.

Mae Cyllideb Addysg ('Prif Grŵp Gwariant Addysg') Llywodraeth Cymru, nad yw, fel y trafodwyd, yn cynnwys cyllid craidd ar gyfer ysgolion, £84 miliwn yn fwy yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, gan gynyddu 4.9 y cant o £1.716 biliwn i £1.800 biliwn. Mae'r gymhariaeth hon yn seiliedig ar y llinell sylfaen ddiwygiedig y mae

² Ar 6 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg £50 miliwn ychwanegol ar gyfer addysg i'w ddarparu yn ystod y flwyddyn yn 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i'w ddosbarthu drwy'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ffurfioli yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2024-25 ym mis Chwefror. Felly, mae gwerth y Grant Addysg i Awdurdodau Lleol yn 2024-25 yn debygol o fod yn uwch na'r £379 miliwn a nodir yma.

Llywodraeth Cymru wedi'i chyfrifo at ddibenion gwneud cymariaethau ac nid yw'n cynnwys cyllid anghyllidol (nad yw'n arian parod), nad oes ganddi ddisgresiwn ynghylch sut y caiff ei ddefnyddio.

Mae tua dwy ran o dair o gyfanswm y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn mynd tuag at addysg ôl-16, er bod sawl cynnydd i gyllidebau addysg cyn-16, gan gynnwys y Grant Addysg i Awdurdodau Lleol.

4. Y sefyllfa ariannu bresennol

4.1. Setliad Llywodraeth Leol 2025-26

Fel yr eglurwyd yn adran 3 uchod, prif ffynhonnell cyllid ysgolion yw Llywodraeth Cymru a hynny drwy'r Cyllid Allanol Cyfun / Grant Cynnal Refeniw, sy'n gyllid heb ei neilltuo, a gaiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o'r setliad llywodraeth leol.

Mae Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2025-26 yn darparu **4.3 y cant o gynnydd cyffredinol** i awdurdodau lleol o gymharu â 2024-25 (yn amrywio o 2.8 y cant yn Sir Fynwy i 5.6 y cant ar gyfer Casnewydd). Mae hyn yn cyfateb i £253 miliwn yn ychwanegol. **Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar ba wasanaethau y caiff y cynnydd hwn ei wario.** Mae hyn yn dilyn cynnydd o 3.3 y cant yn 2024-25, 7.9 y cant yn 2023-24 a 9.4 y cant yn 2022-23.

Yn ei phapur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn nodi ei bod hi a'i chydweithwyr yn y Cabinet wedi "parhau i flaenoriaethu" cyllid ar gyfer llywodraeth leol (gydag ysgolion, ynghyd â darparwyr gofal cymdeithasol, yn brif dderbynyddion) i ddiogelu "cyllid craidd i ysgolion cymaint â phosibl". Fodd bynnag, fel y mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ei nodi, mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol gwerth £559 miliwn yn 2025-26, y mae'r Gymdeithas yn dweud y byddai angen cynnydd o 7 y cant arnynt i ymateb iddynt yn llawn.

Mae Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif y bydd £122 miliwn o bwysau ar ysgolion yn 2025-26, gan ragweld diffygion ariannol pellach o £111 miliwn a £112 miliwn yn 2026-27 a 2027-28, yn y drefn honno. Maen nhw'n nodi bod cyflogau'n cyfrif am 80 y cant o'r pwysau hyn.

4.1.a. Talu costau'r dyfarniad cyflog i athrawon

Fel yr eglurwyd yn barod, nid yw'r cyllid ychwanegol a ddyrennir yn dybiannol o fewn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer ysgolion yn cael ei glustnodi, a mater i awdurdodau lleol fydd y cwestiwn a ydynt yn ei ddefnyddio yn y modd hwn ai peidio. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt dalu costau'r dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25.

Mae athrawon wedi cael 5.5 y cant o godiad cyflog ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Tachwedd i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae ei phapur i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn nodi bod £18.164 miliwn yn cael ei roi i awdurdodau lleol o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2024-25 ar gyfer y costau o fis Medi i fis Mawrth. Mae £12.974 miliwn yn y Grant Cynnal Refeniw yn 2025-26 ar gyfer y costau o fis Mawrth i fis Awst, gydag £18.164 miliwn arall ar gyfer y costau wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, mae hyn yn llai na'r costau a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024, sef £56 miliwn yn 2024-25 a £96 miliwn yn 2025-26.

4.1.b. Grant Addysg i Awdurdodau Lleol

Fel yr eglurwyd yn adran 3.2 uchod, mae'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol yn werth £378 miliwn yn 2024-25 a £400 miliwn yn 2025-26.

4.2. Lefelau cyllido ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data yn flynyddol ar gyfanswm y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cyllidebau craidd ysgolion, a ddarperir gan awdurdodau lleol ac sy'n cael ei gyllido drwy'r Grant Cynnal Refeniw, a'r arian grant o gyllideb Addysg Llywodraeth Cymru. Mae Tabl 1 isod yn darparu data ar gyfer y blynyddoedd diwethaf:

Tabl 1. Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion

	Gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion £ Biliwn	£ gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul disgybl	Y ganran wedi ei ddirprwyo i ysgolion
2024-25	3.591	7926	80.6
2023-24	3.343	7327	81.9
2022-23	3.096	6773	82.9
2021-22	2.913	6387	83.4
2020-21	2.822	6203	83.7
2019-20	2.657	5857	83.9
2018-19	2.566	5675	84.2
2017-18	2.543	5628	84.2
2016-17	2.519	5570	84.3
2015-16	2.496	5526	83.8
2014-15	2.528	5607	82.9
2013-14	2.519	5594	82.3
2012-13	2.495	5520	81.0
2011-12	2.470	5451	76.2
2010-11	2.458	5409	75.0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletinau Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion (rhifynnau sawl blwyddyn)

- Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer ysgolion yn 2024-25 **7.4 y cant yn uwch nag yr oedd yn 2023-24 (4.9 y cant yn uwch mewn termau real*)**. Mae'r cyllid fesul disgybl **8.2 y cant yn uwch (5.7 y cant yn uwch mewn termau real*)**.
- Mae cyllid wedi **codi 35.2 y cant mewn termau arian parod ers 2019-20 a 10.8 y cant mewn termau real***. Mae'r cynnydd fesul disgybl yn **35.3 y cant mewn termau arian parod ac 11 y cant mewn termau real***.
- Fodd bynnag, gan edrych yn ôl dros gyfnod hirach, mae **cyllid wedi cynyddu 2.5 y cant mewn termau real* (2.8 y cant fesul disgybl) ers 2010-11**.

* Mae newidiadau termau real yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio Datchwyyddwyr Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer Hydref 2024.)

4.3. Cronfeydd wrth gefn ysgolion

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi holi Gweinidogion wrth graffu ar y gyllideb mewn blynyddoedd blaenorol ynglŷn â lefel yr arian wrth gefn sydd gan ysgolion. Cofnodir hyn ar 31 Mawrth bob blwyddyn, ac **ers mis Mawrth 2021 mae'r symiau wedi bod yn sylweddol uwch na'r norm hanesyddol, er bod gostyngiad wedi bod yn 2023 a 2024**. Yr esboniad a roddodd Llywodraeth Cymru am y lefelau cymharol uchel oedd bod ysgolion wedi cronni arian wrth gefn, oherwydd yn ystod y pandemig, roeddent wedi cael adnoddau ychwanegol yn gymharol hwyr yn y flwyddyn ariannol felly roedd yr adroddiadau blynyddol yn rhoi darlun camarweiniol.

Mae ysgolion wedi bod yn tynnu mwy a mwy ar y cronfeydd wrth gefn hyn ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn "rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn parhau i leihau ar raddfa sylweddol oherwydd bod angen gwneud arbedion yn y gyllideb. Nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy, wrth i wariant ysgolion barhau i fod yn uwch na'r incwm a geir, mae tebygolrwydd y bydd balansau wrth gefn ysgolion yn fuan mewn sefyllfa diffyg net".

Mae tabl 2 isod yn dangos lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf.

Tabl 2: Cronfeydd wrth gefn ysgolion

	Cyfanswm	Y Disgybl
Mawrth 2024	£115m	£253
Mawrth 2023	£208m	£456
Mawrth 2022	£301m	£659
Mawrth 2021	£181m	£393
Mawrth 2020	£32m	£70
Mawrth 2019	£46m	£102
Mawrth 2018	£50m	£111
Mawrth 2017	£46m	£102
Mawrth 2016	£64m	£142
Mawrth 2015	£64m	£141
Mawrth 2014	£60m	£132

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cronfeydd wrth gefn ysgolion (rhifynnau sawl blwyddyn)

Mae amrywiad sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Ynys Môn sydd â'r cronfeydd wrth gefn uchaf, sef £602 y disgybl. Mae gan ddau awdurdod gronfeydd wrth gefn negyddol – Castell-nedd Port Talbot: £9 y disgybl a Sir Fynwy: £14 y disgybl.

4.4. Cyllid ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ddeiseb wedi'i chyflwyno gan y grŵp 'Diwygio ADY yng Nghymru'. Mae'r sector addysg ar hyn o bryd yn gweithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, a sefydlwyd gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n cymryd lle'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar y broses o weithredu'r diwygiadau ym maes ADY drwy gydol tymor y Senedd hwn, a chyhoeddodd adroddiad interim ym mis Gorffennaf. Cyfeiriwyd at bwysau ariannol fel her allweddol i'r broses weithredu ac argymhellodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r ffordd y caiff darpariaeth ADY ei hariannu mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data blynyddol ar wariant wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA/ADY. Mae'r datganiad diweddaraf (2024-25) yn dangos mai cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth AAA/ADY mewn ysgolion a gyllidebwyd gan

awdurdodau lleol fydd **£592 miliwn yn 2024-25**, sef **cynnydd o £42.3 miliwn neu 7.7 y cant** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 29 y cant o gyfanswm y gwariant ar AAA/ADY a gyllidebwyd yn cael ei ddirprwyo i ysgolion arbennig. Mae dyraniadau tybiannol o fewn y cyllidebau y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi i ysgolion meithrin, cynradd, canol ac uwchradd yn cyfrif am 42 y cant o'r gyfanswm. Mae'r 29 y cant sy'n weddill yn arian a ddelir yn ganolog gan awdurdodau lleol (fel rhan o gyllidebau Addysg ac Ysgolion Awdurdodau Lleol y cyfeirir atynt yn adran 3.1 o'r papur briffio hwn).

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian o'i chyllideb Addysg ar gyfer ADY. Mae yna linell gyllidebol bwrpasol ar gyfer ADY ynghyd â chyllid yn llinyn Diwygio Addysg y Grant Addysg i Awdurdodau Lleol. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 yn nodi bod y rhain, at ei gilydd, yn **darparu £38 miliwn y flwyddyn ar gyfer ADY**, ar ben y cyllid sydd yng nghyllidebau craidd ysgolion.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf P-06-1494
Ein cyf LN/10537/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-06-1494 Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllid addysg rhag toriadau gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol.

Rwy'n cydnabod bod yr argyfwng costau byw yn rhoi ysgolion ac awdurdodau lleol dan bwysau sylweddol. Rwy'n gwerthfawrogi ymdrechion diflino gweithlu'r ysgol wrth iddynt barhau i weithredu mewn cyd-destun heriol, gan gynnwys y lefelau absenoldeb parhaus a'r effeithiau ar ymddygiad mewn ystafelloedd dosbarth, ynghyd â phroblemau iechyd meddwl a lles. Ers dechrau ar fy swydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn gynharach eleni, rwyf wedi gwrandao ar ein partneriaid addysg ledled Cymru ac rwy'n deall yr heriau y maent yn eu hwynebu.

Ar 6 Rhagfyr cyhoeddais £50m yn ychwanegol yn 2024-25 i gefnogi safonau a seilwaith addysg ledled Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd buddsoddi yn ein dysgwyr a'r system addysg sy'n eu cefnogi, a'm hymrwymiad i hynny.

Er ein bod yn croesawu Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU sy'n darparu cyllid refeniw a chyfalaf ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn 2024-25 a 2025-26, rydym yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol. Cyhoeddwyd ein Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 ar 10 Rhagfyr. Mae ein cyllideb yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau, gan gynnwys y rhai a nodwyd gan y Prif Weinidog, ac ar sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i ddarparu ar gyfer pobl Cymru.

Rydym yn blaenoriaethu buddsoddiad i awdurdodau lleol, yn union fel y gwnaethom mewn blynyddoedd blaenorol, drwy ddarparu cynnydd o £253m i'r Setliad Llywodraeth Leol yn 2025-26, cynnydd o 4.3% wrth gymharu tebyg a thebyg. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu gyda'r cyllid sydd ar gael.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod 2024-25 a 2025-26, bydd y sector addysg yn elwa ar £225.5m o gyllid, gydag ysgolion, colegau a lleoliadau eraill yn cael cyllid i helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr ledled Cymru. Mae hyn i gyd yn ychwanegol at y cynnydd arfaethedig i'r Setliad Llywodraeth Leol yn 2025-26, sy'n cydnabod y pwyntiau pwerus y mae partneriaid yr awdurdodau lleol a'n hysgolion wedi'u gwneud ynghylch pwysau i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol am ADY a darpariaeth addysg ehangach.

Wrth gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol, ac wrth fwrw ymlaen â'r buddsoddiad ychwanegol, rydym wedi cynyddu'r cyllid ychwanegol a ddarparwn drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG) 5.5% yn gyffredinol o'i gymharu â 2024-25, i gyfanswm o ychydig o dan £400m.

Yn ogystal â chyllid ychwanegol o £15m yn ystod y flwyddyn i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 hefyd yn diogelu ac yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad o dros £37.6m o gyllid refeniw mewn diwygio ADY. Mae hyn yn cynnwys £14m yn ychwanegol i gynyddu'r cymorth i gyflawni cyfrifoldebau statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Bydd hyn yn dod â chyfanswm y cyllid a ddyrannir yn uniongyrchol i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg i £32m.

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn ADY yn sylweddol, gyda dros £107m i helpu i roi ein diwygiadau ADY ar waith yn ogystal â darparu buddsoddiad cyfalaf o £60m i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn gwella cyfleusterau a seilwaith ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae dros £150m o gyllid refeniw hefyd wedi'i ddyrannu i gefnogi ADY yn y sector addysg bellach ôl-16 trwy leoliadau arbenigol ôl-16 a chyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn buddsoddi dros £750 miliwn dros y naw mlynedd nesaf er mwyn parhau i wella ac ehangu cyfleusterau presennol a chreu darpariaeth arbenigol newydd.

Gwelliant parhaus mewn safonau addysgol yng Nghymru yw fy mhrif flaenoriaeth ac fe nodais fy mlaenoriaethau allweddol i ysgogi gwelliannau yn fy [Natganiad Llafar ar 5 Tachwedd](#). Mae'r rhain yn cynnwys gwella cyfraddau presenoldeb a phwysigrwydd llythrennedd a rhifedd fel hanfodion dysgu. Mae'r Cwricwlwm a diwygio ADY hefyd yn parhau'n ganolog i'r gwaith. Rwyf wedi trafod fy mlaenoriaethau gyda Chyfarwyddwyr Addysg ac wedi ysgrifennu at bob ysgol, fel bod yr holl wybodaeth ganddynt.


Bydd £20m ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy elfen Safonau Ysgolion yr LAEG i wella safonau mewn ysgolion, gan godi'r pecyn cymorth hwn i £180m yn 2024-25. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ystod y flwyddyn yn darparu cymorth y mae ei angen yn fawr ar ysgolion a lleoliadau eraill i helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr.

Rydym yn cymryd camau ar unwaith i gefnogi cyrhaeddiad, gan gynnwys buddsoddiad ychwanegol o £1.1m eleni mewn rhaglenni llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Mae hynny'n cynnwys £470,000 i ymestyn y *Rhaglen Iaith a Llythrennedd*, sydd eisoes wedi gweld dysgwyr yn gwella eu sgiliau darllen hyd at 20%, ac rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad yn y Rhaglen Gymorth Mathemateg i dros £500,000 eleni - gan roi mynediad i fwy o ddysgwyr at ddosbarthiadau meistr mathemateg, clybiau mathemateg, a dysgu proffesiynol pellach i athrawon.

Llythrennedd a rhifedd yw sylfeini dysgu, ac rydym hefyd yn buddsoddi £10m ychwanegol i gefnogi dysgu a chyrhaeddiad yn y meysydd hyn fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2025-26.

Mae'n hanfodol cadw sianeli cyfathrebu ar agor yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn ac rydym wedi ymrwymo i gynnal y ddeialog agored ac adeiladol yr ydym wedi'i sefydlu gyda'n partneriaid ar draws y system wrth i ni weithio gyda'n gilydd i ddarparu'r gorau i'n dysgwyr.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

P-06-1494 Welsh Government to protect funding in education from WG and Local Authority cuts - Correspondence from the petitioner to the Committee, 13 January 2025

My response to the letter from the Cabinet Secretary for Education in relation to my petition P-06-1494.

I don't feel that the issues have been completely understood. While we are aware of the investments made into education by WG the petition was to request consideration of WG ring-fencing funds to be protected for education within LA budgets. Last year's multiple LAs made massive cuts to their education budgets and the general feeling was that this was an easy cut to be made. It wasn't only parents that were concerned. Headteachers from many different areas within different LAs were sending out letters warning parents of the impacts of the cuts on their children which included staff redundancies, loss of 1:1 staff and cuts to ALN services within schools. This should never be the case.

Parents continue to contact us on a daily basis asking for support with their children not having their needs met at school. The frequency of pleas for help is only increasing particularly in the last 6 months. Whether this is as a result of the budget cuts or the funding going to the wrong places is unclear.

Today we heard that the Children's Committee was told the number of children waiting for an autism or ADHD assessment in Wales could nearly triple to 61,000 over the next two years. We know there is a link between the number of recorded ALN children decreasing and an increase families trying to get a diagnosis. Families of children with ALN in Wales are feeling unsupported by schools and local authorities. Parents are desperately trying to get a diagnosis simply to get their child's needs recognised. It all comes back to the fact that the professionals who are now meant to recognise the needs are teachers. They are not mini educational psychologists. A lot of professionals are unaware of masking/fawning or can't recognise them. Professionals are not aware of different presentations like female presentations which are often different to the text books. Academic children who are achieving acceptable grades are overlooked while they struggle with social/emotional or sensory needs. These in between children are surviving and not thriving and some of them will end up in burnout or with emotionally based school non attendance and some will even have school related trauma. The Cabinet Secretary for Education talked about absenteeism in schools in her letter. As she has raised it I would like to ask her why no-one is looking at the true causes for this. Why is there an assumption that it's the parents fault and that fines will fix it? Forcing children to attend a place where their needs are not being met and they don't feel safe every day is not going to solve anything. While schools and LAs continue to deny children's additional learning needs there will continue to be high levels of non attendance. It's an impossible situation for parents and a desperate

place for many children. At the bottom I have added a link to an article written from a research paper on school distress. A very insightful read.

We urge the Welsh Government to take immediate and decisive action to address these issues. Ring-fencing funds for education within local authority budgets (for ALN in particular) is a necessary first step to ensure that every child has access to the support they need to thrive in school. Education is the foundation of our children's future, and it must be protected from the pressures of budget cuts.

We ask that you prioritize the voices of families, educators, and professionals in these discussions and work collaboratively to create a system that meets the needs of all learners. Without swift intervention, we fear that the challenges faced by children with ALN will only continue to grow, with long-lasting consequences for their well-being and education.

Yours sincerely,

Cath Drews

<https://researchfeatures.com/children-frontline-neurodivergence-school-distress/>

Eitem 3.1

P-06-1184 Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru ... mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert Curtis, ar ôl casglu cyfanswm o 4,052 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae plwm yn fetel gwenwynig ac yn wenwyn cryf iawn, ond eto i gyd mae dros 6,000 tonnall yn cael eu tanio at adar hela bob blwyddyn yn y DU. Pe bai unrhyw ddinesydd yn gollwng miloedd o dunelli o wenwyn yn fwriadol i gefn gwlad Cymru, byddai'n cael ei hun o flaen ei well mewn llys barn, fel sy'n briodol.

Mae adar yn aml yn camgymryd pelenni saethu bach am raeau neu hadau ac yn eu hamlyncu, gan ddioddef marwolaethau poenus o ganlyniad. Mae adar sy'n marw fel arfer yn cael eu cipio'n gyflym gan ysglyfaethwyr – sy'n golygu eu bod nhw'n marw o olwg y cyhoedd.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Yn draddodiadol mae'r mwyafrif o ffrwydron – bwledi, pelenni gwn saethu a phelenni gwn aer, wedi'u gwneud â phlwm.

Mae plwm yn effeithio ar y rhan fwyaf o systemau'r corff mewn anifeiliaid, gan gynnwys y systemau nerfol a chylchrediad y gwaed, a gall dod i gysylltiad ag ef ar lefel isel effeithio ar system imiwnedd ac ymddygiad adar. Mewn rhai amgylchiadau, gall llyncu un belen plwm, hyd yn oed, ladd aderyn.

Mae consortiwm o sefydliadau saethu bellach yn cefnogi newid i ffrwydron di-blwm at ddefnydd pawb sy'n saethu prae byw gyda gynnu yn y pum mlynedd nesaf.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o'r difrod y mae plwm yn ei wneud i'n hamgylchedd, ond rydym o'r farn bod yr argyfwng ecolegol yn mynnu ein bod yn gosod gwaharddiad ar unwaith ar ffrwydron plwm o bob math. At hynny, credwn fod yn rhaid i'r gwaharddiad gynnwys saethiadau clai ac nid

"prae byw" yn unig, gan fod y ffrwydron plwm a wastraffwyd yn dal i aros yn yr amgylchedd.

Mae Barry Action yn grŵp cadwraeth gwirfoddol bach sydd wedi'i leoli yn un o drefi arfordirol de Cymru, Barri.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

P-06-1184 Immediately ban the use of toxic lead in all ammunition in Wales... lead is killing our wildlife! - Correspondence from the petitioner to the Committee, 13 January 2025

Hello

We would like to make the following statement to the petitions committee concerning the proposed ban of outdoor lead shot by the HSE:

"Members of Barry Action for Nature welcomed the HSE's statement calling for a ban on outdoor lead shot. This follows a massive consultation and the catagorical evidence that lead shot is poisoning our wildlife, and has done for decades.

We now call on the Senedd to legislate as soon as possible for a Wales wide ban and consign lead shot to the dustbin of history alongside snares!

We must, however, question the British and Welsh shooting industry who has constantly resisted this vital policy change which will now go on to help protect nature in Wales and throughout the rest of the UK!"

Thanks

P-06-1220 Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Larissa Richardson, ar ôl casglu cyfanswm o 242 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd sy'n ymwneud â materion iechyd menywod, yn ogystal ag ymchwil, addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Mae'r materion hyn yn cynnwys:

materion amenedigol, anafiadau yn ystod genedigaeth, cwmp y groth, ffibroidau, endometriosau, materion cysylltiedig â menopos, materion cysylltiedig â mislif, a'r effaith ar iechyd meddwl sy'n cyd-fynd â'r materion hyn.

Meysydd a allai elwa (enghreifftau, ymhlith eraill): bydwreigiaeth, meddygon teulu, gynaeoleg, ffisiotherapi iechyd menywod, gwasanaethau iechyd meddwl (ee cwnsela).

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae nifer sylweddol o fenywod yn dioddef o faterion iechyd menywod. Wedi dweud hynny, mae cyfran fawr o'r menywod hyn yn dioddef mewn distawrwydd.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Y Cyngorydd / Councillor
Stephen William Churchman
Ward - Dolbenmaen



Date:
My Ref:
Your Ref:

Dear Petition Committee Members,

Petition P-06-1425: RE T2 Bus Services

In response to the letter from the Minister, I would like to make the following observations:

- Reference is made to the falling number of passengers since the introduction of the replacement T22 service through Garn. I would respectfully point out that having lost the early morning services, the evening services and the Sunday service, this is of little surprise. Some residents have been unable to get to work, or get home from work using public transport since these changes and have had no alternative, but to seek transport to work by other means.
- The Minister states that neither TfW nor Cyngor Gwynedd have assured the Senedd that they have any immediate plans to make any service changes. In the little time I have had to confirm this, staff at Cyngor Gwynedd have said they are unaware of any consultation on this matter.
- Following an invitation to a consultation meeting via Zoom with representatives from The Senedd, TfW and Cyngor Gwynedd in early February, I am awaiting confirmation of the date and time.
- The Petition offers two alternatives to resolve the loss of the service as presented to the Petition Committee in September. The first and preferred option is to “swap” the T2 and T22 services utilising the T22 as the link to the strategic route for Criccieth and rerouting the T2 through Penmorfa and Garndolbenmaen thus reconnecting these communities with the strategic route as was always the case until the recent changes. The second option is to leave the T22 as it is now and route the T2 service through Garndolbenmaen Via Glandwyfach, thus the northbound journey becomes Porthmadog, Criccieth Glandwyfach, Garndolbenmaen, Glandwyfach and back to the existing route. The southbound being simply the reverse order. This adds a few minutes to the journey yet satisfies nearly all affected communities except Penmorfa.

I would respectfully request that consideration is given to making alterations to the service(s) in order to satisfy the wishes of the affected communities and look forward to your responses.

Kind regards,

Cynghorydd Stephen W Churchman

Minffordd House
Garndolbenmaen
Gwynedd
LL51 9TX
Ffon/Tel 01766 530661
Symudol/Mobile 07511 686480

P-06-1439 Gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lisa Mart ôl casglu 8,226 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad yn gweithredu o fewn cyllidebau tynn er eu bod yn darparu llwyfannau hanfodol i dalent newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth wedi rhybuddio y bydd tua 10% o leoliadau cerddoriaeth llawr gwlad yn cau erbyn diwedd 2023.

Oherwydd diffyg cysylltiadau teithio hanfodol hwyr y nos, mae cynulleidfaoedd yn cael eu hatal rhag mynychu lleoliadau y byddent yn eu cefnogi fel arall.

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i wella cysylltiadau teithio hanfodol hwyr y nos a sicrhau bod diwylliant ar lawr gwlad yn hygyrch ac yn cael ei warchod am flynyddoedd i ddod.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Llythyr agored i Lywodraeth Cymru – <https://cy.swansea-arena.co.uk/an-open-letter-to-welsh-government>

Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o 10 Cwestiwn sy'n sail i "Croeso i Gymru 2020 – 2025 Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr: crynodeb"

https://businesswales.gov.wales/tourism/sites/tourism/files/documents/10-Questions_Response-Analysis-Report_2020-01-22_Cymraeg.pdf

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Abertawe
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1439
Ein cyf/Our ref KSNWT/10621/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

12 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deiseb P-06-1439. Gwella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan y ddeiseb ac yn gwerthfawrogi ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater pwysig hwn.

Rydym wedi ymrwymo i wella'r system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac yn deall ei phwysigrwydd i'r economi, twristiaeth a chymunedau. Rwy'n falch bod Trafnidiaeth Cymru wedi gallu cyflwyno gwasanaethau rheilffordd hwyrach ac amlach ar Linellau Craidd y Cymoedd yn ne Cymru yr haf hwn. Cefnogir y gwelliannau hyn drwy gyflwyno trenau newydd sbon ledled Cymru, gan roi hwb i'r capasiti a gwella'r profiad teithio i deithwyr sy'n teithio i ac o ddigwyddiadau. Ond mae mwy yr hoffem allu ei wneud, gan gynnwys yn Ne-orllewin Cymru.

Fodd bynnag, mae hwn yn fater cymhleth ac mae cyfyngiadau yn eu lle ar hyn o bryd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd a bysiau yng Nghymru sy'n cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau. Bydd masnachfreinio bysiau yn galluogi Trafnidiaeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i ddylunio amserlen a rhwydwaith bysiau newydd i gefnogi anghenion cymunedau lleol yn y ffordd orau - gan gynnwys yr economi gerddoriaeth lawr gwlad yn Abertawe a'r ardaloedd cyfagos.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda lleoliadau cerddoriaeth drwy Cymru Greadigol ac rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sector drwy gyfarfodydd grŵp cynghori rheolaidd. Yn ogystal â hynny, rydym wedi grymuso awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod gan bob rhanbarth rôl weithredol wrth lunio'r ffordd orau o ddiwallu ei anghenion trafndiaeth penodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i wella'r system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in grey ink, appearing to read 'Ken', with a long, sweeping horizontal stroke above the letters.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Eitem 3.9

P-06-1454 Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl brys i dadau newydd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Williams ôl casglu 295 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

I dadau â phroblemau iechyd meddwl, ystyrir bod y risg o hunanladdiad hyd at 47 y cant yn uwch yn ystod y cyfnod amenedigol nag ar unrhyw adeg arall yn eu bywydau (Quevedo et al., 2010).

Mae ymchwil newydd hefyd yn dangos mai 22 y cant yw'r risg o gael gorbryder ac iselder i dad newydd yn ystod y cyfnod amenedigol. Mae trawma geni yn effeithio ar o leiaf 30,000 o fenywod yn y DU; mae tadau'n dyst i'r trawma hwn ac nid ydynt yn cael cymorth ar gyfer PTSD. Mae tadau hefyd yn colli babanod, ac mae angen iddynt gefnogi eu babanod ar wardiau newyddenedigol.

Rydym am i Lywodraeth Cymru sefydlu gwasanaeth i gefnogi tadau mewn timau iechyd meddwl amenedigol ledled Cymru. Rydym hefyd am i dadau gael cymorth ariannol am hyd at chwe wythnos.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Rwy'n rhan o adroddiad sydd ar y gweill, gyda Theo Clarke AS, ar dadau a thrawma geni. Edrychwch ar 'Fathers Reaching Out – Why Dads Matter' a gyhoeddwyd yn 2020 gyda'r holl argymhellion i gefnogi tadau yn well. Drwy gefnogi iechyd meddwl pob rhiant newydd, gellir sicrhau canlyniadau llawer gwell i'r teulu cyfan, gan gynnwys y babi. Os nad ydym yn cynnwys tadau, mae posibilrwydd y bydd effaith ar famau, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Cam-drin Sylweddau, Torri Perthynas, Argyfwng mewn gwasanaethau eraill a pheidio â mynd i wraidd yr achos. Un o achosion mwyaf marwolaeth dynion yw hunanladdiad ac oherwydd y risg uchel ymhlith tadau newydd, mae hyn yn fater brys. Iechyd Meddwl Tadau yw un o brif

achosion hunanladdiad, ond nid ydym yn sgrinio nac yn cefnogi tadau yn 2024.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1454
Ein cyf/Our ref SM/10182/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

20 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1454: Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl brys i dadau newydd.

Gallaf gadarnhau bod y rhaglen iechyd meddwl strategol yng Ngweithrediaeth y GIG yn gweithio gyda hyfforddai uwch mewn seiciatreg, a gyflogir gan dîm amenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ddatblygu llwybr i gefnogi tadau a phartneriaid unigolion o dan ofal y tîm iechyd meddwl amenedigol arbenigol.

Ar ôl ei ddatblygu, y bwriad yw rhoi'r llwybr hwn ar waith ar draws yr holl dimau iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Mae'r canllaw arfer gorau, y cyfeirir ato mewn gohebiaeth flaenorol, yn dal i gael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei lywio gan y gwaith hwn.

O ran datblygu'r strategaeth [iechyd meddwl a llesiant](#) a'r strategaeth [atal hunanladdiad a hunan-niweidio](#), rydym wedi cyhoeddi crynodebau'r ymgynghoriad. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio ar y strategaethau terfynol a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,

Sarah Murphy AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 166
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-06-1454: Calling Welsh Government to provide urgent mental health support for new dads – Correspondence from the petitioner to the Committee, 08 January 2025

Dear Petitions Committee Thank you for your efforts on the petition committee; I truly appreciate your hard work. I would like to share the following:

I want to extend my heartfelt thanks to Huw Irica-Davies for his unwavering support since I began this campaign 15 years ago. I also appreciate Sarah Murphy for her relentless persistence over the years, engaging with various ministers despite the challenges we faced, and Jack Sergent for his contributions as well.

Regarding the campaign and the recent developments, I am thrilled about the new pathways for fathers and partners; this is incredible news, and I am grateful that it is now formally acknowledged. Having been part of the perinatal mental health steering group in the past, I had my doubts about this progress occurring anytime soon, so it's truly encouraging to see this change.

I believe it's essential to see more literature and information available for mental health charities focusing on paternal mental health. It's important that fathers, just like mothers, receive the support they need to ensure they are not overlooked in the future. Raising awareness and providing resources specifically for paternal mental health can help address this gap and promote better overall mental well-being for families.

This need for greater awareness and resources for paternal mental health has become increasingly evident, especially following recent work with Samaritans Cymru last year. Collaborating with them highlighted the importance of ensuring that fathers receive the necessary support, just as mothers have traditionally been supported. It's crucial that mental health charities expand their focus to include literature and resources that address the unique challenges faced by fathers.

I would like to share any recommendations that could be beneficial, along with relevant evidence and research. Additionally, I want to provide insights into pathways surrounding birth trauma.

Thank you so much and consider the petition successful. After spending many years highlighting the importance of paternal mental health with success in other countries, I have often felt overlooked in my own. I am now thrilled to see that Wales is beginning to catch up with the progress made elsewhere.

I am optimistic about the future for families in Wales. Thanks again,

Mark

Eitem 3.10

P-06-1452 Dydd Llun heb gig ym mhob ysgol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Manon Rebeca ôl casglu 271 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw am y canlynol: dydd Llun di gig yn mhob ysgol yng Nghymru am resymau amgylcheddol ac er lles anifeiliaid.

Mae'n lleihau eich ôl troed carbon ac yn safio bywydau anifeiliaid. Hefyd mae hi'n cymeryd 2,350 litr o ddŵr i greu un byrgyr cig eidion felly bydd hwn yn safio llwyth o ddŵr.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru



Eich cyf P-06-1452
Ein cyf/ LN/10326/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref 2024 yn gofyn am fanylion yr amserlen ar gyfer adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion, ac am wybodaeth ynghylch awdurdodau lleol yng Nghymru sydd eisoes yn cynnig diwrnodau heb gig.

Ar 17 Medi, yn ystod fy Natganiad Llafar ar Brydau Ysgol am ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, manylais ar yr amserlen i adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Mae'r trawsgrifiad o'r datganiad i'w weld yma: [Y Cyfarfod Llawn: 17/09/2024 - Senedd Cymru](#). I grynhoi, eglurais fod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynllunio ar gyfer gwanwyn 2025 gyda'r bwriad o osod y Rheoliadau diwygiedig gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2026.

Ar wahân i hynny, mae gan awdurdodau lleol ac ysgolion ddisgresiwn i gynllunio eu bwydlenni eu hunain ac fe'u hanogir i gydweithio â phartneriaid, rhieni a dysgwyr i sicrhau eu bod yn fwydlenni apelgar a chynhwysol. a'u bod hefyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau bwyta'n iach. Mae bwydlenni ysgol ar gael ar wefannau awdurdodau lleol, a gellir eu defnyddio i nodi diwrnodau di-gig. Os yw'n ddefnyddiol fel enghraifft, mae gan Gyngor Caerdydd ddydd Llun di-gig - gellir dod o hyd i'r fwydlen ar gyfer ysgolion cynradd yma: [Bwydlen Ysgol Gynradd](#)

Yn gywir

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-06-1452 Meat-free Monday in every school in Wales - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 13 January 2025

Dear Carolyn Thomas MS and members of the petitions committee,

Thanks for the letter, I was pleased to hear that some local authorities are already doing a meat-free Monday. I'd like to see more of this in the future. Is it possible to do this at a national level as the petition asked for instead of leaving it to local authorities?

I don't think the letter quite addresses the issues in my neighborhood. During the debate on 17 September meatless Monday wasn't allowed to talk about.

Research has shown that meat-free Mondays are healthy and can help with people's health and make lives longer.

Can revised regulations on reviewing healthy eating regulations in schools take into account the research into meatless Mondays?

Thanks again for the letter,

Yours sincerely

Manon Thompson

**P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr
Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gareth Jones 13,245 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae cau'r canolfannau hyn yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Byddai cau'r canolfannau ymwelwyr hyn yn cael effaith negyddol
pellgyrhaeddol ar yr economi leol, yr amgylchedd, a llesiant cymunedol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Eitem 3.12

P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kim Williams ôl casglu 2,422 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r gymuned leol ar ddeall bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cau'r Ganolfan Ymwelwyr yn Ynyslas ddiwedd y flwyddyn hon. Mae hyn yn digwydd heb unrhyw ymgynghori, dim darpariaeth arall ar gyfer amddiffyn amgen y warchodfa natur, a cholli swyddi lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad a ddylai fod yn gwarchod ein bywyd gwyllt a'n cymunedau, yn hytrach na'u dinistrio.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae'r ganolfan ymwelwyr yn Ynyslas yn hollbwysig o ran rheoli'r 400,000 o ymwelwyr y flwyddyn sy'n defnyddio'r safle. Mae bywyd gwyllt a chynefinoedd y warchodfa natur yn fregus, ac mae angen eu hamddiffyn rhag y nifer fawr yma o ymwelwyr, cerbydau a chŵn, os ydym am osgoi colli rhagor o fioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae presenoldeb staff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y flwyddyn yn y warchodfa yn golygu bod yna rwystr naturiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol (cynnau tanau, tipio anghyfreithlon, mynediad i gerbydau) ac yr aed i'r afael yn gyflym ac yn effeithlon gydag unrhyw achosion o'r fath.

Mae'r ganolfan yn darparu gwybodaeth ac addysg i bob ymwelydd, er mwyn iddyn nhw ddeall pam fod y lle yn arbennig, a pha effaith y mae eu gweithredoedd yn ei gael arno. At hynny, mae'n fan cyswllt cymdeithasol i'r gymuned leol, ac yn fan lle mae byd natur yn hygyrch i'r rheini sydd â symudedd cyfyngedig.

Mae rheolaeth effeithiol ar ymwelwyr yn Ynyslas yn hanfodol er mwyn amddiffyn y Warchodfa Natur a'i bywyd gwyllt.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1474/1447
Ein cyf/Our ref: HIDCC/10614/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
petitions@senedd.cymru

10 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deisebau P-06-1474 a P-06-1447 a dyfodol canolfannau ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rwy'n falch o roi gwybod i chi y bydd darpariaethau'r canolfannau ymwelwyr yn parhau ar waith tan 31 Mawrth 2025 wrth inni, yn ddi-oed, ymgysylltu â'r gymuned a darpar bartneriaid. Bydd hyn yn rhoi amser i Cyfoeth Naturiol Cymru drefnu mesurau dros dro ar bob safle yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys contract consesiwn ar gyfer cart coffi ar bob safle, consesiwn hufen iâ ar gyfer misoedd yr haf a pharhau contractau eraill fel cynnal a chadw tir.

Efallai eich bod yn ymwybodol fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal tri sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd yn ddiweddar i roi gwybodaeth i gymunedau lleol. Cynhaliwyd y rhain ar gyfer Ynyslas (Neuadd Gymunedol y Borth, Stryd Fawr, Borth, SY24 5LH ddydd Llun, 25 Tachwedd, 7pm), Bwlch Nant yr Arian (Neuadd Penllwyn Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LS ddydd Mawrth, 26 Tachwedd, 6:30pm) a Choed y Brenin (Neuadd Bentref Ganllwyd, Llanfar, Y Llai, Ganllwyd, LL40 2TF ddydd Mercher, 27 Tachwedd, 6:30pm).

Yn dilyn y cyfarfod ar 25 Tachwedd, agorodd Cyfoeth Naturiol Cymru fynegiant cymunedol o ddiddordeb am bedair wythnos i ganiatáu i aelodau'r cyhoedd gynnig ffyrdd o ddefnyddio'r safle yn Ynyslas. Mae Ynyslas mewn sefyllfa unigryw gan ei bod o fewn gwarchodfa natur ac mae ganddi anghenion a gofynion statudol penodol iawn, felly bydd yn cael ei gynnig fel cyfle cyfyngedig, cymunedol ar gyfer "defnyddio lle".

Mae angen datblygu ac ystyried ymhellach y cynnig ar gyfer Nant yr Arian a Choed y Brenin cyn cael cynnig i agor y farchnad gan ddilyn canllawiau caffael gwasanaethau cyhoeddus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at wella darpariaeth y ganolfan ymwelwyr i helpu i gefnogi twristiaeth a gwasanaethu anghenion cymunedau lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried a oes lle i gynyddu gwerth y canolfannau ymwelwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwariant y GIG yn ôl rhaglen ofal ar sail y cyflwr meddygol y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 174

i ddefnyddwyr ac a fydd ymestyn y cynnig y tu hwnt i fanwerthu ac arlwyio yn atyniad ychwanegol i'r diwydiant twristiaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi a diolch unwaith eto am ysgrifennu ataf ar y mater hwn.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eich Cyf: P-06-1447 a P-06-1474
Ein Cyf: CX24-130 a CX24-154

Gareth Price
Clerc y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost yn unig: deisebau@senedd.cymru

2 Ionawr 2025

Annwyl Gareth,

P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

Ar 31 Gorffennaf 2024, lansiodd CNC ymgynghoriad â'n Hundebau Llafur a oedd yn edrych ar draws ein cylch gwaith ar ffyrdd o arbed isafswm o £13 miliwn, gan ganolbwyntio ar yr un pryd ar feysydd blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol. Ymhlith y cynigion a ystyriwyd gennym oedd p'un a ddylem barhau i weithredu gwasanaethau arlwygo a manwerthu yn ein Canolfannau Ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 5 Tachwedd, cytunodd ein Bwrdd i roi'r Achos dros Newid ar waith. Rydym bellach mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Deisebau fel yr addawyd yn ein llythyrau ymateb cynharach, dyddiedig 14 Awst a 30 Medi.

Rydym yn cydnabod teimladau cryf y cyhoedd ynghylch y Canolfannau Ymwelwyr a'r ffaith y bydd y penderfyniad i atal y gwasanaethau hyn yn siomedig i lawer. Bydd gwasanaethau arlwygo a manwerthu yn y tri safle – Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas – yn parhau ar agor tan 31 Mawrth 2025, ac wedi hynny byddant yn cau. Bydd y safleoedd yn parhau i fod ar agor ar gyfer mynediad hamdden, megis cerdded a beicio a bydd gwasanaethau megis mannau chwarae, meysydd parcio a thoiledau hefyd yn parhau i fod ar gael.

Hoffem hefyd egluro nad yw staff ein Canolfan Ymwelwyr yn gyfrifol am reoli'r tir yn y canolfannau ac o'u cwrmpas. Cyfrifoldeb ein timau rheoli tir yw hyn. Felly, ni fydd unrhyw newid i'r modd y caiff llwybrau a mynediad eu rheoli nac o ran cynnal a rheoli bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol.

Ein blaenoriaeth yw dod o hyd i bartneriaid a all weithio gyda ni i wneud Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin yn fannau ffyniannus sydd â dyfodol cynaliadwy hirdymor. Mae sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r partner cywir ar gyfer y safle cywir yn hanfodol, ond mae angen amser arnom i wneud yn siŵr ein bod yn darparu'r gwerth mwyaf i ddefnyddwyr, busnesau lleol a chymunedau.

Yn y cyfamser, rydym yn archwilio atebion dros dro i leihau aflonyddwch a pharhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i ymwelwyr.

O'r tri safle, mae Ynyslas yn unigryw gan ei bod yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Dyfi ac felly mae ganddi anghenion a gofynion statudol penodol, gyda gwarchod y GNG yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn cynnwys cadw swyddfa ar y safle ar gyfer staff rheoli tir. Felly ni fydd Canolfan Ymwelwyr Ynyslas yn cael ei chynnig yn fasnachol a bydd yn cael ei chyflwyno at ddefnydd y gymuned yn unig drwy Ddatganiadau o Ddiddordeb. Cysylltwyd â'r rhai sydd wedi cofrestru diddordeb yn Ynyslas drwy e-bost i roi gwybod bod y broses Mynegi Diddordeb ar agor a bod y ffurflen gais ar gael i'w lawrlwytho drwy'r [Hyb Ymgynghori](#) ar ein gwefan.

Rydym eisoes wedi derbyn diddordeb yng Nghoed y Brenin a Bwlch Nant yr Arian. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tegwch a chydaddoldeb, nid oes unrhyw gynigion yn cael eu hystyried cyn yr ymarfer tendro cyhoeddus a fydd yn dechrau yn 2025. Cynhelir y broses drwy wefan GwerthwchiGymru a gall unrhyw un sydd â diddordeb gofrestru ar y plattfform cyn i'r broses ddechrau. Byddwn yn darparu mwy o fanylion am y broses hon, gan gynnwys y dyddiad cychwyn, maes o law.

Mae manylion y rhai sydd eisoes wedi cysylltu â ni wedi cael eu hychwanegu at restr bostio o bartïon sydd â diddordeb, felly byddant yn derbyn manylion y broses dendro pan fyddant ar gael.


Er nad yw'r ymarfer tendro cyhoeddus wedi dechrau, rydym wedi bod yn cyfarfod yn anffurfiol â phartïon sydd â diddordeb ac wedi trefnu sesiynau galw heibio ar gyfer pob safle, ac mae'r manylion ar gael ar yr Hyb Ymgynghori. I gadarnhau, nid oes unrhyw drafodaethau ffurfiol wedi'u cynnal. Mae pob cyfarfod wedi bod yn anffurfiol ac heb ymrwymadau er mwyn helpu i nodi a yw'r tendr yn iawn iddyn nhw.

Cafodd y sesiynau ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'n safleoedd i ddiweddarau aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid ar ddyfodol canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Ynyslas a Choed y Brenin eu cynnal tua diwedd mis Tachwedd. Daeth nifer dda o bobl i'r rhain a chawsom y cyfle pwysig i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i fanwerthu ac arlwygo yn ein Canolfannau Ymwelwyr, ac ateb cwestiynau a phryderon penodol gan y cyhoedd.

Yn dilyn y rhain, rydym wedi cynhyrchu set o Gwestiynau Cyffredin a fydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar-lein drwy ein Hyb Ymgynghori. Byddwn yn parhau i ddiweddarau'r Cwestiynau Cyffredin wrth i ni weithio drwy effaith yr Achos dros Newid ar Ganolfannau Ymwelwyr. Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau neu ymholiadau hefyd at flwch post pwrpasol ymgysylltu.masnachol@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Hyderwn fod hyn o gymorth a byddwn yn hapus i ymateb i unrhyw ymholiadau pellach am y Canolfannau Ymwelwyr.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ceri Davies', with a stylized, cursive script.

Ceri Davies

Prif Swyddog Gweithredol Dros Do
Acting Chief Executive Officer

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

P-06-1447 Stop Natural Resources Wales closing the visitor centre at Ynyslas National Nature Reserve - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 13 January 2025

Dear Petitions Committee

I would just like to say that this letter to Carolyn Thomas from the Deputy First Minister does not address the issues that we raised in any way.

We were never concerned about the provision of coffee and ice creams at Ynyslas and always about the conservation and safety work that the Visitor Centre staff undertook. The idea that NRW has a fantastic education and visitor destination on the reserve that will not be open to the public is shameful. Rather than using what they have, they are proposing to bring more traffic to the site in the form of a third party coffee cart.

Will the coffee cart staff collect the dog poo or warn visitors not to swim at the red flag beach? Will the current contractors (I assume the Minister means the people who clean the loos) put out the high tide warning signs or plover lines?

NRW keep saying that the Visitor Centre staff are retail and catering but this is not true. My husband was a temporary team member in the summer season and he did between 8,000 and 12,000. It would be impossible to do that number of steps while standing behind a counter without a treadmill (which he did not have).

I am dismayed to read that "Natural Resources Wales is considering whether there is scope to increase the value of the visitor centres for users and whether extending the offer beyond retail and catering will provide additional attraction to the tourism industry" when this is what we already have at Ynyslas. NRW appear to be throwing out the baby with the bathwater and wasting thousands of pounds of taxpayers money to boot.

Again, I have reached the point of not knowing what else to say as no one other than members of the Petitions Committee is listening or willing to try to understand the issues.

Other members of our team will almost certainly send separate emails to you.

Kind regards

Polly Ernest

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.13

P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Angharad Cousins ôl casglu 749 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno tystysgrifau colli baban i deuluoedd yn Lloegr sydd wedi colli babanod cyn 24 wythnos. Nid yw hyn yn gymwys i deuluoedd Cymru. Gadewch i ni newid hyn!!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Caerffili
- Dwyrain De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1464
Ein cyf/Our ref SM/10279/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

12 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

**P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael
tystysgrif colli baban**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd ynglŷn â Deiseb.

Rydym am i bawb yng Nghymru sydd wedi cael profedigaeth wybod bod cymorth ar gael iddynt, ac rydym yn gweithio ar nifer o fentrau i wella mynediad at gymorth profedigaeth i blant, pobl ifanc, ac oedolion yng Nghymru.

Ar ôl i Lywodraeth y DU lansio cynllun gwirfoddol i alluogi rhieni sydd wedi colli babi cyn 24 wythnos o feichiogrwydd i wneud cais am dystysgrif am ddim i gydnabod eu colled, gwnaed cytundeb mewn egwyddor gyda Llywodraeth y DU i ymestyn y cynllun i gynnwys Cymru. Yn anffodus, cafodd y trafodaethau hyn eu gohirio oherwydd yr Etholiad Cyffredinol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ystyried y ffordd orau o ymestyn y cynllun i gynnwys Cymru heb oedi pellach. Rwyf hefyd wedi cwrdd â'r Farwnes Merron, sydd â chyfrifoldebau cyfatebol yn Llywodraeth y DU i drafod ymestyn y cynllun dystysgrif colli babi i Gymru.

Mae trafodaethau rhwng fy swyddogion a Llywodraeth y DU wedi aildddechrau, ac mae'r gwaith i weithredu'r cynllun yng Nghymru yn mynd rhagddo.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading 'S. Murphy'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'S' and a long, sweeping underline.

Sarah Murphy AS/MS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing

Ein Cyf / Our Ref: TP

Dyddiad / Date: 23 Medi 2024

Gofynnwch am / Please ask for: Tim Peppin

Llinell uniongyrchol / Direct line: 07747 483761

E-bost / E-mail: tim.peppin@wlga.gov.uk

Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd

**Deiseb P-06-1380 Bathodyn Glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis
gydol oes.**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf ynglŷn â'r ddeiseb uchod. Mae'n ddrwg gen i am yr oedi cyn ymateb, ond mae'r swyddogion wedi bod yn ceisio casglu gwybodaeth i gynig atebion i'r cwestiynau a godwyd.

Er bod ystadegau wedi'u cyhoeddi am fathodynau glas yn Lloegr (e.e. [Blue Badge scheme statistics: data tables \(DIS\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/blue-badge-scheme-statistics-data-tables-dis)), nid ydym yn ymwybodol o gyhoeddiad tebyg ar gyfer Cymru. Ymgynghorodd swyddogion CLILC â Data Cymru ar hyn, ac maen nhw'n ymchwilio gyda Llywodraeth Cymru. Os byddan nhw'n cysylltu â ni gydag unrhyw wybodaeth bellach, byddwn yn siŵr o roi gwybod i chi.

Mae'r Gwasanaeth Digidol Bathodyn Glas (BBDS) yn darparu System Gwybodaeth Rheoli ar y we i bob Cyngor. Drwy'r BBDS, mae'n bosib cael gafael ar fanylion am ddeiliaid Bathodyn Glas o unrhyw le ym Mhrydain Fawr. Fodd bynnag, nid oes gan CLILC fynediad at y BBDS ac mae'n aneglur os yw data cyfanredol yn cael ei dynnu o'r system honno a'i gyhoeddi yn rhywle ar gyfer Cymru.

O ystyried y sylwadau uchod, mae ymateb cryno i bob un o'r pedwar pwynt rydych chi'n eu codi i'w gweld isod.

(1) Nid oes angen data am faint o unigolion sy'n dal bathodyn glas gydol oes ar hyn o bryd ym mhob awdurdod lleol er mwyn mynd drwy'r broses adnewyddu lawn bob 3 blynedd.

Gan fod gofyn adnewyddu bathodynau bob tair blynedd, ni chredwn fod yna unrhyw fathodynau gydol oes, yn amodol ar y sylwadau a wnaed wrth ymateb i Gwestiwn 2 isod. Efallai y gall Cyngorau unigol egluro a oes yna unrhyw drefniadau lleol ar waith, ond nid yw CLILC yn casglu na choladu gwybodaeth am y cynllun. Os nad yw Llywodraeth Cymru'n gwneud hynny, nid ydym yn ymwybodol bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw mewn un lle, felly byddai angen holi pob Cyngor.

(2) Oes yna broses symlach o adnewyddu gydol oes ym mhob awdurdod lleol?

Mae gwefan pob Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am y cynllun bathodyn glas a sut i wneud cais. Gellir gwneud hyn ar lein neu wyneb yn wyneb. Ar hyn o bryd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cyhoeddi ar gymhwyso ([Bathodynau Glas: pwy sy'n gymwys? \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)), rhaid gwneud cais bob tair blynedd (a 12 wythnos cyn i'r bathodyn cyfredol ddod i ben). Fodd bynnag, efallai y gellir **cymhwyso'n awtomatig** heb fod angen asesiad os gellir dangos tystiolaeth o'r canlynol:

1. Llythyr budd-dal cymwys, cyfredol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf. Gall hwn fod yn llythyr hawl i gael Taliad Annibyniaeth Personol gyda'r adran bwyntiau neu'n llythyr cyfradd uwch elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl. Gall tystiolaeth arall gynnwys llythyr dyfarnu perthnasol gan y Weinidogaeth Amddiffyn (e.e. mewn perthynas ag Anhwylder Meddwl Parhaol) a thystiolaeth o fod wedi'ch 'cofrestru'n ddall' neu fod ag 'amhariad difrifol ar y golwg'.
2. Prawf o'ch cyfeiriad.
3. Prawf o bwy ydych chi.

(3) Oes yna unrhyw gynlluniau hyfforddi cyffredin neu a rennir?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal hyfforddiant ac wedi rhannu gwybodaeth i Gyngorau am fathodynau glas yn y gorffennol wrth gyflwyno newidiadau. Cafwyd canllawiau hefyd ar ddefnyddio bathodynau glas yn ystod pandemig Covid. Yn fwy diweddar, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi mewn perthynas â materion gorfodi bathodynau glas.

(4) Oes yna unrhyw fforwm neu rwydwaith Cymru gyfan i rannu a datblygu arferion da?

Mae yna amrywiol rwydweithiau o swyddogion llywodraeth leol sy'n helpu i rannu arferion da ac a all gynnwys mentrau hyfforddi ar y cyd. Mae gwahanol adrannau'n ymdrin â bathodynau glas mewn gwahanol Gyngorau (e.e. y gwasanaethau cymdeithasol; priffyrdd; canolfannau gwasanaeth i gwsmeriaid). Gall hyn ei gwneud yn anodd dod o hyd i'r rhwydwaith gorau i rannu gwybodaeth am fathodynau glas. Fodd bynnag, canolfannau gofal cwsmeriaid, siopau un alwad neu ganolfanyntiau cymunedol a sefydlwyd gan Gyngorau ar gyfer y cyhoedd sy'n ymdrin â bathodynau glas yn fwyfwy cyffredin. Mae yna Grŵp Cyswllt Cwsmeriaid allai gynnwys bathodynau glas fel rhan o'u gweithgareddau rhwydweithio.

Gobeithio bod yr ymateb hwn o fudd i chi. Os byddwn ni'n cael unrhyw wybodaeth ychwanegol am y pwyntiau uchod, rwyf wedi gofyn i swyddogion CLILC ei hanfon ymlaen atoch chi.

Yn gywir,



Y Cyngorydd Andrew Morgan OBE
Arweinydd a Llefarydd Cludiant CLILC

Date: Tuesday 3 December 2024

Subject: Wales Participation in the ESC

Dear Carolyn Thomas MS,


Thank you for your letter seeking further information on the process to participate in the Eurovision Song Contest.

Participation in the Eurovision Song Contest, and other Eurovision live events, is limited to public broadcasters which are members of the European Broadcasting Union. While S4C in Wales is a valued member of the EBU and has taken part twice in the Junior Eurovision Song Contest and once in Eurovision Choir, the BBC has taken part in the Eurovision Song Contest since 1957 and represents the whole of the United Kingdom at the event. As the BBC continues to participate, and remains the rights holder in the United Kingdom, this means an entry from the individual nations of the UK is therefore not possible at the Eurovision Song Contest.

Should you have any questions, I remain at your disposal.

Kind regards,

Bakel Walden



Bakel Walden

Chair of the ESC Reference Group